# CYNGOR DINAS CAERDYDD

# CYFARFOD Y CABINET: 16 MAWRTH 2017

## TREFNIADAU DERBYN I YSGOLION 2018/2019 A TREFNIADAU DERBYN ADDYSG UWCHRADD CYDLYNOL 2018-2020

## ADRODDIAD Y CYFARWYDDWR ADDYSG

**EITEM AGENDA:10**

**PORTFFOLIO: ADDYSG (Y CYNGHORYDD SARAH MERRY)**

**Rhesymau dros yr Adroddiad hwn**

1. Yn unol ag Adran 89 Deddf Safonau a Fframwaith Ysgolion 1998 a Rheoliadau Addysg (Penderfynu ar Drefniadau Derbyn) (Cymru) 2006, mae gofyn i'r Awdurdodau Derbyn adolygu eu Trefniadau Derbyn i Ysgolion yn flynyddol.

2. Bydd yr adroddiad hwn yn hysbysu'r Cabinet o'r ymatebion a dderbyniwyd yn dilyn ymgynghoriadau ar:

    - Drefniadau Derbyn i Ysgolion y Cyngor 2018/19
    - y cynnig i roi'r Trefniadau Derbyn i Ysgolion Uwchradd Cydlynol ar gyfer y cyfnod 2018-2020 ar waith

**Cefndir**

**Trefniadau Derbyn i Ysgolion 2018/19**

3. Er mwyn cydymffurfio â'r ddeddfwriaeth uchod, rhaid i'r Trefniadau Derbyn i Ysgolion ar gyfer eu rhoi ar waith yn y flwyddyn academaidd 18/19 (h.y. o fis Medi 2018) gael eu penderfynu ar 15 Ebrill 2017 neu cyn hynny.

4. Gosododd Rheoliadau Addysg (Penderfynu ar Drefniadau Derbyn) (Cymru) 2006 a'r Cod Derbyn i Ysgolion y weithdrefn y dylai awdurdodau derbyn eu dilyn wrth benderfynu ar eu trefniadau derbyn, gan gynnwys bod rhaid cynnal ymgynghoriad priodol a phenderfynu ar drefniadau erbyn 15 Ebrill yn y flwyddyn ysgol yn dechrau dwy flynedd cyn y flwyddyn ysgol y mae'r trefniadau ar eu cyfer. Y rheswm dros hyn yw rhoi'r cyfle i'r holl randdeiliaid roi sylwadau llawn yn yr ymgynghoriad ac i rieni gael sicrwydd o 15 Ebrill wrth wneud eu trefniadau ar gyfer addysg eu plant. Pe na bai'r Cyngor yn cynnal ymgynghoriad priodol a/neu'n oedi wrth benderfynu ar y trefniadau

derbyn gallai arwain at her cyfreithiol ar ffurf adolygiad barnwrol. Mae'n rhaid i'r Cyngor hefyd ddangos bod y trefniadau derbyn yn gyfreithlon, o ran eu bod yn cydymffurfio â'r ddeddfwriaeth berthnasol a'r Cod Derbyn i Ysgolion, mewn ymateb i bob apêl a ddaw gerbron y Panel Apeliadau Derbyn i Ysgolion Annibynnol. Os na all y Cyngor ddangos bod y trefniadau yn gyfreithlon a bod disgybl wedi'i effeithio gan y methiant, bydd apêl yn llwyddiannus, sy'n golygu bod rhaid i'r disgybl gael ei dderbyn i ysgol sydd eisoes yn llawn. Gan fod y Cyngor yn derbyn tua 500 apêl y flwyddyn, os yw nifer helaeth yn llwyddiannus oherwydd yr ystyrir bod y trefniadau derbyn yn anghyfreithlon a bod nifer helaeth o ddisgyblion wedi'u heffeithio gan hyn, mae risg sylweddol o orboblogi mewn nifer o ysgolion ledled Caerdydd, a fyddai'n mynd yn erbyn prif ddyletswydd y Cyngor i hyrwyddo safonau addysg uchel.

5. Cyflwynwyd Polisi Derbyn i Ysgolion drafft y Cyngor 2018/19 (gweler Atodiad 1) ar gyfer ymgynghoriad ar 05 Rhagfyr 2016 a daeth i ben ar 23 Ionawr 2017.

6. Cafwyd newid mân i'r polisi ar gyfer 2018/19. Roedd y newid a wnaed fel a ganlyn:

   - Esboniad dros y mesur pellter ar gyfer disgyblion sy'n byw yn yr un adeilad h.y. fflatiau. Mewn achosion o'r fath, caiff yr asesiad llwybr ei bennu o brif fynediad pob annedd.

**Peilot Trefniadau Derbyn Cydlynol**

7. Ar y cyd â'r ymgynghoriad ar Drefniadau Derbyn i Ysgolion 2018/19, cynhaliwyd ymgynghoriad cyhoeddus ar y cynnig i gyflwyno trefniadau derbyn cydlynol ar gyfer y grŵp oedran Blwyddyn 7 ar gyfer derbyniadau ym Medi 2018, Medi 2019 a Medi 2020 (gellir gweld copi o'r ddogfen ymgynghori yn Atodiad 2). Nid yw'r newid hwn yn golygu newid i'r polisi ond yn hytrach yn cynnig system ddiwygiedig ar gyfer gweinyddu'r broses derbyniadau ar y cyd ag awdurdodau derbyn eraill sy'n gweithredu yng Nghaerdydd.

8. Cyflwynwyd trefniadau derbyn cydlynol yn Lloegr dan delerau Rheoliadau Derbyn i Ysgolion (Cydlynu Trefniadau Derbyn) (Lloegr) 2007.

9. Ar hyn o bryd nid oes trefniadau derbyn cydlynol ffurfiol yng Nghymru er gwaethaf y ffaith bod Llywodraeth Cymru yn cydnabod bod gan Gaerdydd 30 Awdurdod Derbyn (llawer mwy nag unrhyw Awdurdod Lleol arall yng Nghymru) gyda 23 ohonynt yn Gyrff Llywodraeth Ysgolion Cynradd, 6 yn Gyrff Llywodraethu Ysgolion Uwchradd a'r Cyngor yn 1.

10. Ar hyn o bryd mae rhieni yn ymgeisio am leoedd addysg uwchradd drwy gyflwyno ffurflen derbyn i ysgolion i Awdurdod Derbyn yr ysgol a ffefrir ganddynt. Rhaid i unrhyw gais ar gyfer Ysgol Ffydd neu

Sefydledig gael ei wneud yn uniongyrchol i Gorff Llywodraethu yr ysgol honno. Rhaid i unrhyw geisiadau ar gyfer Ysgol Gymunedol gael eu gwneud i'r Cyngor.

11. Er y gall rhieni ymgeisio am sawl ysgol a rhoi gwybod i'r Cyngor pa ysgolion cymunedol yw'r dewis(iadau) y ffefrir ganddynt, nid oes rhaid iddynt gadarnhau p'un a ydynt wedi gwneud ceisiadau i awdurdodau derbyn eraill na pa ysgol ddi-gymunedol yw eu dewis uchaf neu isaf. O ganlyniad, gallai rhieni gael cynnig mwy nag un lle ysgol i'w plentyn gyda rhai rhieni yn dewis 'dal' cynigion am fwy nag un ysgol, gan atal plant eraill rhag cael cynnig y lleoedd hyn.

12. O ganlyniad, tra bo rhai rhieni yn derbyn cynigion i'w plentyn am sawl ysgol, mae rhieni eraill wedi bod yn aflwyddiannus yn sicrhau lle yn unrhyw un o'u dewisiadau ysgol.

13. O ganlyniad, mae ansicrwydd o ran pa ddisgyblion fydd yn dechrau ym mha ysgolion gan fod y drefn o ran dewisiadau ysgol rhieni yn aneglur ar adeg y cais a bydd rhai disgyblion heb gael cynnig lle ar ôl y rownd dyrannu cyntaf.

14. Nod y cynnig yw creu system decach o ran dyrannu lleoedd ysgol yng Nghaerdydd.

**Materion**

**Crynodeb o'r Ymgynghoriad ar Drefniadau Derbyn i Ysgolion y Cyngor 2018/19**

15. Cyflwynwyd Polisi Derbyn i Ysgolion drafft y Cyngor 2018/19 ar gyfer ymgynghoriad ar 05 Rhagfyr 2016 i bawb y mae gofyn i'r Cyngor ymgynghori â hwy fel y nodir yng Nghod Derbyn i Ysgolion Llywodraeth Cymru (Penaethiaid, Cyrff Llywodraethu, Cyfarwyddwyr Esgobaethol, Awdurdodau Addysg Lleol cymdogol).

16. Hefyd cyflwynwyd y Polisi ar wefan y Cyngor a roddodd y cyfle i rieni a phartïon eraill â diddordeb roi sylwadau. Gofynnwyd i ymatebion gael eu dychwelyd erbyn 23 Ionawr 2017.

**Ymatebion a dderbyniwyd yn gysylltiedig â'r polisi yn ystod y cyfnod ymgynghori.**

17. Derbyniwyd cyfanswm o 47 ymateb, gan gynnwys ymateb gan Gorff Llywodraethu Ysgol Gynradd Marlborough ac ymateb ar y cyd gan Aelodau Lleol Pen-y-lan.

18. Roedd y safbwyntiau a fynegwyd yn ymwneud yn bennaf â dalgylch Ysgol Gynradd Marlborough a'r galw am leoedd / mwy o alw na lleoedd yn Ysgol Uwchradd Caerdydd.

19. Mae’r pwyntiau a godwyd yn yr ymgynghoriad wedi’u nodi mewn llythrennau italig isod ac wedi’u grwpio yn ôl y materion a godwyd lle y bo'n briodol. Gellir gweld ymateb y Cyngor i bob pwynt isod, dan y pennawd “*Arfarniad o'r safbwyntiau a fynegwyd*.”

Ymateb Corff Llywodraethu Ysgol Gynradd Marlborough

20. Roedd ymateb gan Gorff Llywodraeth Ysgol Gynradd Marlborough yn cynnwys y pwyntiau canlynol (gellir gweld copi o’r ymateb llawn yn Atodiad 3):

21. *Yn dilyn cyfarfod gyda rhieni, mae’r Corff Llywodraethu yn poeni bod y meini prawf presennol a ddefnyddir pan fo mwy o alw na lleoedd yn cosbi teuluoedd sy'n byw yn nalgylch yr ysgol gynradd oherwydd eu pellter daearyddol i Ysgol Uwchradd Caerdydd o gymharu â'r tair ysgol gynradd arall.*

22. *Mae’r Corff Llywodraethu wedi cynnig y dylai hyd preswyliad teuluoedd (neu feini prawf tebyg eraill sy’n cael gwared ar yr annhegwch o ran pellter) gymryd blaenoriaeth dros bellter.*

23. *Mynegodd y Corff Llywodraethu hefyd bryder er y tynnir sylw rhieni at yr ymgynghoriad ar y Trefniadau Derbyn i Ysgolion Uwchradd Cydlynol, nad oeddent yn cael gwybod yn yr un modd am yr ymgynghoriad ar y trefniadau derbyn i ysgolion arfaethedig ar gyfer 2018/19.*

Arfarniad o’r safbwyntiau a fynegwyd

24. Fel gydag unrhyw feini prawf derbyn i ysgolion, pan fo mwy o alw na lleoedd, bydd rhai ymgeiswyr yn cael eu derbyn a chaiff rhai mo’u derbyn.

25. Caiff y meini prawf preswyliad o fewn dalgylch ysgol ond eu rhoi ar waith pan fo mwy o alw na lleoedd, ac nid fel meini prawf cymhwyso. Ni ellir sicrhau dan y ddeddfwriaeth berthnasol bod yr holl ddisgyblion mewn unrhyw ddalgylch yn cael eu derbyn i’w hysgol ddalgylch.

26. Ni fyddai cyflwyno maen prawf “hyd preswyliad dalgylch" yn cael ei gydnabod fel arfer gorau. Cyfeirir at y pwynt hwn yng Nghod Derbyn i Ysgolion Llywodraeth Cymru 2.63, sy’n cyfeirio at ysgolion cynradd bwydo ac sy’n nodi os bydd Awdurdodau Derbyn yn defnyddio'r maen prawf hwn, i wneud hynny gyda gofal, oherwydd gall trefniadau o’r fath roi plant sy’n symud i ardal yn hwyrach dan anfantais a dylent ystyried yr effaith y caiff trefniadau o’r fath ar allu ysgol i wasanaethu ei hardal leol. Byddai’r un gofal a'r anfantais posibl yn berthnasol i faen prawf “hyd preswyliad dalgylch”.

27. Dan Adran 19 Deddf Cydraddoldeb 2010, caiff gwahaniaethu anuniongyrchol ei wahardd a dan Adran 85 mae gwahaniaethu mewn

perthynas â Derbyn i Ysgolion hefyd wedi'i wahardd. Mae'r Cyngor hefyd yn rhwym i'r Ddyletswydd Cydraddoldeb Sector Cyhoeddus o ran pob un o'i benderfyniadau. Mae meini prawf "hyd preswyliad dalgylch" yn enghraifft o wahaniaethu anuniongyrchol o bosibl gan fod y rheiny a allai fod dan anfantais gan y maen prawf hwn yn fwy tebygol o ddod o grwpiau cymdeithasol agored i niwed gyda nodweddion a ddiogelir; er enghraifft, plant Sipsiwn a Theithwyr, Ceiswyr Lloches / Ffoaduriaid a disgyblion tramor.

28. Mae Cod Derbyn i Ysgolion Llywodraeth Cymru o ran gwahardd y maen prawf annymunol pan fo mwy o alw na lleoedd, 2.29 yn nodi: "Wrth osod meini prawf pan fo mwy o alw na lleoedd ni ddylai awdurdodau dderbyn: Allgau ymgeiswyr o grŵp cymdeithasol neu grefyddol penodol." Mewn perthynas â phlant Sipsiwn a Theithwyr, mae Cod Derbyn i Ysgolion Llywodraeth Cymru, 3.26 yn nodi "Rhaid i drefniadau fod ar waith i blant Sipsiwn a Theithwyr gael eu cofrestru'n gyflym mewn ysgol p'un a ydynt yn byw'n barhaol neu dros dro yn yr ardal. Mae canllaw ar arfer gorau mewn perthynas â mynediad i addysg ar gyfer y grŵp hwn o ddysgwyr i'w weld yng Nghylchlythyr Llywodraeth Cynulliad Cymru 003/2008 'Symud Ymlaen – Addysg Teithwyr Sipsiwn".

29. Mae'r newid arfaethedig i'r meini prawf pan fo mwy o alw na lleoedd a gynigir gan rieni plant sy'n mynychu Ysgol Gynradd Marlborough yn amlwg mewn ymateb i'r meini prawf pan fo mwy o alw na lleoedd yn Ysgol Uwchradd Caerdydd. Rhaid i'r Cyngor, fel yr Awdurdod Derbyn i Ysgolion ar gyfer yr holl ysgolion cymunedol yng Nghaerdydd, ystyried Caerdydd yn ei chyfanrwydd a'r effaith ar y boblogaeth. Mae'r defnydd o bellter rhwng y cartref a'r ysgol fel y rhestrir yng Nghod Derbyn i Ysgolion Llywodraeth Cymru (2.48) "meini prawf clir a gwrthrychol pan fo mwy o alw na lleoedd sy'n ddefnyddiol wrth ddyrannu'r lleoedd olaf".

30. Mae dadansoddiad o ddisgyblion yn y dalgylch (234 ar 25 Ionawr 2017) y mae eu rhieni wedi ymgeisio am le iddynt ar ôl i'r rownd blynyddol o geisiadau gael ei gynnal h.y. ymgeiswyr 'yn ystod y flwyddyn' ar gyfer blwyddyn academaidd 2016-17, hyd yn hyn, yn dangos y carfannau a fyddai o bosibl, ym marn y Cyngor, yn cael eu gwahaniaethu drwy weithredu maen prawf "hyd preswyliad dalgylch":

- Mae 12% (29) o ddisgyblion yn ddyfodiaid diweddar i'r DU h.y. plant sydd a fu'n byw yn y DU am gyfnod sydd heb fod yn fwy na dwy flynedd;
- Mae 1% **(3)** yn Geiswyr Lloches (heb eu cynnwys uchod);
- Mae 15% **(34)** o ddisgyblion yn ddyfodiaid diweddar i Gaerdydd o ardaloedd eraill o'r DU;
- Mae 26% **(61)** o ddisgyblion wedi symud cyfeiriad o fewn ffin sirol Caerdydd.

31. Felly, o bosibl, byddai **(127)** 54% o'r holl ymgeiswyr yn y dalgylch yn ystod y flwyddyn ar gyfer blwyddyn academaidd 2016-17 hyd yn hyn, wedi cael eu heffeithio'n negyddol gan y maen prawf hwn. O ran pa rai o'r ymgeiswyr hyn all honni eu bod wedi cael eu gwahaniaethu'n anuniongyrchol mewn perthynas â nodwedd a ddiogelir (yn ôl Deddf Cydraddoldeb 2010), gweler y wybodaeth isod:

- Crefydd – y garfan y gwahaniaethir fwyaf yn eu herbyn fyddai'r rheiny o ffydd Islamaidd (35%) [**39 o ddisgyblion**].
- Hil – y garfan a gwahaniaethir fwyaf yn eu herbyn fyddai'r rhai Gwyn Prydeinig (35%) [**39 o ddisgyblion**]. A'r ail garfan a gwahaniaethir fwyaf yn eu herbyn fyddai'r garfan Arabig (13%) [**14 o ddisgyblion**].

32. O ystyried y potensial ar gyfer gwahaniaethu anuniongyrchol dan y maen prawf "hyd preswyliad dalgylch", ni argymhellir ei gynnwys ym Mholisi Derbyn i Ysgolion y Cyngor.

33. I gynnwys maen prawf o'r fath byddai gofyn sefydlu torbwynt h.y. tystiolaeth foddhaol o breswyliad dros gyfnod penodol. Byddai hyn yn gosod gofyniad ar ymgeiswyr i gadw a chyflwyno dogfennaeth wreiddiol dros gyfnod estynedig megis cyfnod cyflawn addysg gynradd y plentyn er mwyn profi hyd preswyliad, y gall llawer o rieni gael trafferth ei wneud. Byddai maen prawf o'r fath yn rhoi rhieni sydd wedi byw o fewn dalgylch am y cyfnod penodol o amser ond nad ydynt yn gallu cynhyrchu dogfennaeth briodol dan anfantais.

34. Pe bai'r Cyngor yn ystyried gwneud newid i'w Bolisi Derbyn i Ysgolion drafft 2018/19, i gynnwys maen prawf fel "hyd preswyliad dalgylch", byddai hyn yn cael ei ystyried fel newid sylweddol a byddai hyn yn golygu ymgynghoriad pellach, na fyddai'n bosibl o fewn y cyfnod amser i ystyried trefniadau derbyn i ysgolion 2018-19.

35. Ymgynghorwyd ar Bolisi Derbyn i Ysgolion drafft y Cyngor 2018/19 yn unol â gofynion Cod Derbyn i Ysgolion Llywodraeth Cymru (adran 2.5).

36. Fel y rhestrir ym mharagraff 6 gwnaethpwyd mân newidiadau i Bolisi Derbyn i Ysgolion drafft y Cyngor 2018/19. Nid oes gofyniad o fewn y Cod i ymgynghori â rhieni ar drefniadau derbyn i ysgolion arfaethedig, fodd bynnag cafodd y polisi ei gyhoeddi ar wefan y Cyngor a roddodd y cyfle i rieni a phartïon eraill â diddordeb roi sylwadau. Hefyd gofynnwyd i ysgolion roi gwybod i rieni am yr ymgynghoriad trwy eu dulliau cyfathrebu arferol e.e. e-bost, cylchlythyr, cyfryngau cymdeithasol ac ati.

37. Mae'r cynnig i gyflwyno trefniadau derbyn cydlynol yn newid sylweddol a chafodd rhieni wybod am yr ymgynghoriad er mwyn sicrhau ymwybyddiaeth o'r newid arfaethedig.

Ymateb Aelodau Lleol

38. Roedd ymateb ar y cyd gan Gynghorwyr Pen-y-lan (y Cynghorydd Joe Boyle, y Cynghorydd Bill Kelloway a'r Cynghorydd Tricia Burfoot) yn cynnwys y pwyntiau canlynol (mae copi o'r ymateb llawn yn Atodiad 3):

39. *Mae'r system bresennol o ddyrannu lleoedd ar sail pellter wrth ddyrannu'r lleoedd olaf pan fo mwy o alw na lleoedd yn annheg. Mae'r defnydd o bellter yn dibynnu ar un mesur mympwyol, yn creu annhegwch a gall gael ei gamddefnyddio.*

40. *Mae'r ymgynghoriad ar drefniadau cydlynol yn cyfeirio at y ffaith bod angen system decach, fwy cydradd o ddyrannu lleoedd ysgol yng Nghaerdydd heb gael effaith negyddol ar y gymuned. Mae hwn yn gydnabyddiaeth bod angen i'r Cyngor ddelio â phroblemau ehangach o fewn y broses gyfredol, gyda'r maen prawf pellter yn cael ei ystyried fel yr esiampl mwyaf amlwg o sut mae annhegwch yn dod yn rhan o'r system.*

41. *Fel y nodir yng Nghod Derbyn i Ysgolion LlC, ni ddylai derbyniadau fod yn seiliedig ar feini prawf sy'n 'fympwyol o ran natur'. Byddem yn dadlau bod pellter (pellter i'r ysgol) yn fesur mympwyol ac yn sicr ddim yn fwy neu'n llai mympwyol nag unrhyw fesur hanfodol arall, sef amser (hyd y preswyliad). Nid yw para 2.29 y Cod yn crybwyll amser na phellter. Felly mae rhoi blaenoriaeth i un dros y llall yn benderfyniad mympwyol. Gallai paragraffau 2.48 – 2.5 y cod gael ei ailysgrifennu'n hawdd fel 'mae hyd preswyliad mewn dalgylch yn faen prawf clir a gwrthrychol pan fo mwy o alw na lleoedd ac yn ddefnyddiol wrth ddyrannu'r lleoedd olaf' yn lle 'pellter rhwng y cartref a'r ysgol' fel y nodir ar hyn o bryd.*

42. *Rydym yn awgrymu bod y cyngor yn ailysgrifennu'r polisi ac yn cynnwys un ai maen prawf hyd preswyliad mewn dalgylch neu'n dyrannu'r lleoedd olaf yn seiliedig ar bwyntiau (gweler yr ymateb am fanylion llawn). Nid yw'r polisi yn addas i'r diben ac nid yw'n diwallu nodau'r cyngor o gyflwyno polisi teg ar gyfer derbyn i ysgolion. Rydyn ni'n credu ein bod wedi cyflwyno dau opsiwn a allai gael gwared ar annhegwch o'r broses derbyn.*

Arfarniad o'r safbwyntiau a fynegwyd

43. Fel y nodir yng Nghod Derbyn i Ysgolion Llywodraeth Cymru (2.48) mae'r defnydd o bellter rhwng y cartref a'r ysgol yn "faen prawf clir a gwrthrychol pan fo mwy o alw na lleoedd ac yn ddefnyddiol wrth ddyrannu'r lleoedd olaf".

44. Eir i'r afael â'r awgrym o ran cynnwys 'hyd preswyliad' fel maen prawf pan fo mwy o alw na lleoedd ym mharagraffau 24 - 34.

**Ymatebion eraill a gafwyd**

Maen prawf hyd preswyliad

45. O'r 47 o ymatebion a gafwyd, gofynnodd y mwyafrif i'r maen prawf hyd preswyliad o fewn dalgylch yr ysgol uwchradd cyn 'pellter' gael ei gynnwys yn y polisi er bod llawer yn cydnabod na fyddai hyn yn bosibl efallai ar gyfer 2018/19.

46. Roedd y safbwyntiau a fynegwyd yn cynnwys y canlynol.

47. *Mae'r defnydd presennol o bellter fel maen prawf wedi arwain at nifer o deuluoedd yn byw dros dro yn nalgylch Ysgol Uwchradd Caerdydd er mwyn sicrhau lle yn yr ysgol. Mae hyn yn cael effaith negyddol ar y plant hynny sy'n byw yn nalgylch Ysgol Gynradd Marlborough ac sydd wedi bod yn byw yn nalgylch yr ysgol uwchradd am gyfnod hirach.*

48. *Mae tystiolaeth o Gronfa Ddata EMS One Live y Cyngor (07 Rhagfyr 2016 Disgyblion ym Mhob Grŵp Blwyddyn yn YUC sy'n byw yn nalgylch YUC), yn rhoi tystiolaeth ar y sail bod y nifer derbyn yn Ysgol Uwchradd Caerdydd yn 240, bod 10 teulu wedi symud allan cyn i'w plentyn ddechrau yn YUC ac yn ystod blwyddyn 7 bod 31 arall wedi gadael y dalgylch gan roi cyfanswm o 41.*

| ***Blwyddyn*** | ***Disgyblion yn y Dalgylch*** |
|---|---|
| *7* | *230* |
| *8* | *199* |
| *9* | *192* |
| *10* | *200* |

49. *Mae'r niferoedd yn arwyddocaol ac yn dangos cydberthynas amlwg rhwng symud i mewn ac allan o'r dalgylch a phellter i Ysgol Uwchradd Caerdydd gan y rheiny o du allan i ddalgylch Ysgol Uwchradd Caerdydd. Mae'r data ar gyfer blynyddoedd 8,9,10 hefyd yn dangos bod y symudiad naturiol nodweddiadol i mewn ac allan o'r dalgylch oherwydd digwyddiadau mewn bywyd ac ati. Mae'r niferoedd ym mhob blwyddyn yn dangos bod y niferoedd gwirioneddol yn Ysgol Uwchradd Caerdydd yn llawer is na'r nifer a gyhoeddwyd (a'r uchafswm o ran niferoedd) y gall yr ysgol ei dderbyn.*

50. *Nid yw'r system derbyn presennol yn addas i'r diben ac mae'n rhoi plant sy'n byw ym Mhen-y-lan dan anfantais gan eu bod yn byw ymhellach o Ysgol Uwchradd Caerdydd na'r rheiny sy'n mynychu ysgolion cynradd eraill y dalgylch. Byddai cyflwyno maen prawf hyd preswyliad o fewn dalgylch ysgol uwchradd uwchben pellter yn ddatrysiad effeithiol.*

51. *Trwy gyflwyno maen prawf hyd preswyliad uwchben pellter ond yn is na meini prawf 1-5 ni fyddai hynny'n gwahaniaethu yn erbyn unrhyw un o'r grwpiau a nodir yn y Ddeddf Cydraddoldeb ac ni fyddai'n effeithio ar y rheiny a ystyrir fwyaf agored i niwed.*

52. *Mae pellter yn rhoi disgyblion sy'n byw yn y rhannau hynny o ddalgylch Ysgol Uwchradd Caerdydd sy'n bellach o'r ysgol dan anfantais mewn ffordd systematig a mympwyol. Mae plant Marlborough dan anfantais oherwydd eu bod yn byw ymhellach o Ysgol Uwchradd Caerdydd a dylent fod yn yr un sefyllfa â'r rheiny sy'n mynychu ysgolion cynradd eraill y dalgylch.*

53. *Ni fyddai cynnwys cymal hirhoedledd yn rhoi'r rheiny sy'n symud i ddalgylch dan anfantais. Pe bai teulu yn symud i ardal lle mae mwy o alw na lleoedd yn yr ysgol, bydd ganddynt ddewisiadau. Pe bai'n ymarferol, gallent aros yn eu hysgol wreiddiol; gallent fynd ar y rhestr aros ar gyfer eu hysgol ddalgylch ac aros i gael cynnig lle. Gallai'r maen prawf hirhoedledd arfaethedig fod yn well i'r teulu hwn oherwydd byddai'r polisi cyfredol yn golygu y gall y teulu hwn fod yn byw yn yr ardal ac ar y rhestr aros yn hirach tra y gallai teulu arall symud yn nes a chael cynnig lle yn gynt.*

54. *Awgrymwyd y gallai cyflwyno maen prawf hirhoedledd effeithio ar deuluoedd sy'n symud i mewn fodd bynnag mae'r nifer yma'n fach iawn o gymharu â'r nifer fawr o deuluoedd sydd bellach ddim yn siŵr p'un a fydd eu plentyn yn cael lle yn ysgol uwchradd y dalgylch.*

55. *Gallai cynnwys maen prawf hyd preswyliad gael effaith gadarnhaol ar gymunedau eraill y tu hwnt i ddalgylch Marlborough/YUC.*

<u>Arfarniad o'r safbwyntiau a fynegwyd</u>

56. Mae 86% o ddisgyblion yn y grŵp oedran Blwyddyn 7 ar hyn o bryd yn Ysgol Uwchradd Caerdydd wedi bod yn byw yn nalgylch Ysgol Uwchradd Caerdydd am 3 blynedd a mwy a 77% am 5 mlynedd a mwy.

57. Mae hyn yn cymharu â chyfartaledd ar gyfer holl Ysgolion Uwchradd Saesneg Cymunedol Caerdydd o ddisgyblion sydd wedi bod yn byw yn eu dalgylchoedd am 3 blynedd a mwy o 85% a 76% am 5 mlynedd a mwy.

58. Felly, nid yw hyn yn awgrymu bod gan ddalgylch Ysgol Uwchradd Caerdydd nodweddion preswyliad derbyn sy'n wahanol iawn i unrhyw ysgolion uwchradd Saesneg cymunedol eraill yng Nghaerdydd.

59. Mae hefyd yn awgrymu er nad yw hyd preswyliad yn cael ei ddefnyddio fel maen prawf derbyn, mae nifer sylweddol o ddisgyblion eisoes yn breswylwyr hir dymor yn nalgylchoedd eu hysgol uwchradd Saesneg.

60. Hefyd, mae nifer y disgyblion ym Mlwyddyn 7 sydd wedi bod yn byw yn nalgylch Ysgol Uwchradd Caerdydd am lai na blwyddyn yn 1.36% yn erbyn cyfartaledd o 2.17% ym mhob Ysgol Uwchradd Saesneg yng Nghaerdydd.

61. O’r deg o blant a nodwyd fel rhai y tu allan i’r dalgylch yn Nata One Live EMS (07 Rhagfyr 2016), cafodd 7 eu derbyn i Ysgol Uwchradd Caerdydd fel rhan o'r rownd dyrannu arferol ar gyfer Blwyddyn 7 gan ddiwallu'r meini prawf a ddefnyddir pan fo mwy o alw na lleoedd trwy Dderbyn Gofal / Fod Wedi Derbyn Gofal neu fod yr ysgol wedi’i henwi ar Ddatganiad o Anghenion Addysgol Arbennig. Yn ôl deddfwriaeth mae gofyn i’r disgyblion hyn gael eu derbyn a chael y blaenoriaeth uchaf lle bynnag y bônt yn byw.

62. Nid oes sylfaen i'r awgrym bod disgyblion yn symud i ddalgylch Ysgol Uwchradd Caerdydd dros dro er mwyn cael lle yn yr ysgol.

63. O ran niferoedd y disgyblion mewn blynyddoedd cwricwlwm hŷn, mae’n gamarweiniol dehongli’r gwahaniaeth rhwng y niferoedd ar y gofrestr a nifer y disgyblion sy’n mynychu Ysgol Uwchradd Caerdydd o'r dalgylch, fel arwydd o fabwysiadu cyfeiriad dros dro er cyfleuster.

64. Yn hanesyddol, mae Ysgol Uwchradd Caerdydd wedi gallu ateb yr holl alw am leoedd o'r dalgylch ac wedi gallu darparu lleoedd (ar sail y meini prawf derbyn cyhoeddedig), i rai disgyblion o'r tu allan i'r dalgylch.

65. Mae nifer y disgyblion a dderbynnir i Ysgol Uwchradd Caerdydd ar sail y meini prawf dalgylch sydd ar y gofrestr yn Ysgol Uwchradd Caerdydd ar gyfer Blynyddoedd Cwricwlwm 7-11 nad ydynt yn byw yn nalgylch yr ysgol mwyach yn cyfateb i tua 10 y flwyddyn.

66. O ran y mater o mwy o alw na lleoedd o fewn dalgylch Ysgol Uwchradd Caerdydd yn ddiweddar, dylid nodi nad yw bod yn breswylydd o fewn dalgylch yn ofyniad ar gyfer cymhwyso na'n sicrhau lle mewn unrhyw ysgol. Mae digon o leoedd ar gael yn y sector uwchradd yng Nghaerdydd gyda rhai disgyblion na chafodd le ym mlwyddyn 7 yn Ysgol Uwchradd Caerdydd o fis Medi 2016, sy’n byw yn nalgylchoedd Ysgol Uwchradd Caerdydd ac Ysgol Gynradd Marlborough, sy’n byw yn nes at Ysgol Uwchradd Cathays a/neu Ysgol Uwchradd Willows.

67. Mae Cronfa Ddata One Live EMS o 07 Rhagfyr 2016 y cyfeirir ati yn ymwneud â nifer y disgyblion o ddalgylch Ysgol Uwchradd Caerdydd sy’n mynychu’r ysgol ac nid cyfanswm y disgyblion ym mhob grŵp blwyddyn.

68. Mae’r awgrym o ran cynnwys ‘hyd preswyliad' fel maen prawf pan fo mwy o alw na lleoedd yn cael ei nodi ym mharagraffau 24 - 34.

<u>Graddfeydd Amser</u>

69. *Os na ellir gweithredu newidiadau i'r polisi megis 'hyd preswyliad' ar gyfer blwyddyn ysgol 18/19, gallai'r rhain gael eu hystyried ar gyfer 19/20.*

Arfarniad o'r safbwyntiau a fynegwyd

70. Fel y rhestrir ym mharagraff 34, byddai cynnwys maen prawf fel "hyd preswyliad dalgylch" yn y Polisi Derbyn i Ysgolion 2018/19 drafft yn cael ei ystyried fel newid sylweddol a byddai hyn yn golygu ymgynghoriad pellach, na fyddai'n bosibl o fewn y cyfnod amser i ystyried trefniadau derbyn i ysgolion 2018-19.

71. Bydd ystyriaeth bellach gan gynnwys ymchwil ehangach i'r meini prawf a ddefnyddir pan fo mwy o alw na lleoedd yn gysylltiedig ag ysgolion cymunedol mewn awdurdodau eraill yn cael ei wneud cyn ymgynghori ar bolisi 2019/20.

Ysgol Uwchradd Caerdydd

72. *Roedd y Cyngor yn ymwybodol o'r galw cynyddol am leoedd yn Ysgol Uwchradd Caerdydd ac wedi ymrwymo i ymdrin â hyn ond wedi methu gwneud hynny hyd yn hyn. Bydd derbyn mwy o ddisgyblion mewn tair o'r pedair ysgol gynradd partner yn cael effaith bellach ar allu disgyblion i gael lle yn yr ysgol.*

73. *Dros amser bydd disgyblion o ysgolion cynradd cymunedol sy'n agosach at Ysgol Uwchradd Caerdydd nag Ysgol Gynradd Marlborough yn dechrau ei chael hi'n anodd cael lle yno.*

Arfarniad o'r safbwyntiau a fynegwyd

74. Bu'r Cyngor yn ymwybodol o'r niferoedd cynyddol o ddisgyblion o fewn ysgolion cynradd dalgylch Ysgol Uwchradd Caerdydd, fodd bynnag mae digon o leoedd ysgol o fewn y sector uwchradd yng Nghaerdydd. Mae'r disgyblion na chafodd le yn Ysgol Uwchradd Caerdydd o fis Medi 2016, sy'n byw yn nalgylchoedd Ysgol Uwchradd Caerdydd ac Ysgol Gynradd Marlborough, yn byw yn agosach at Ysgol Uwchradd Cathays a/neu Ysgol Uwchradd Willows.

75. Fel rhan o'r broses ar gyfer cynllunio lleoedd ysgol, mae'r Cyngor yn adolygu capasiti uwchradd a'r angen newidiol am leoedd yn barhaus. Caiff cynigion eu cyflwyno i sicrhau bod digon o gapasiti i ddiwallu'r galw am leoedd uwchradd Saesneg o fewn dalgylch Ysgol Uwchradd Caerdydd. Fodd bynnag, gall y galw cyfredol am leoedd Saesneg gael ei ddiwallu o fewn y ddarpariaeth ysgol bresennol, gan fod digon o leoedd ar gael mewn ysgolion cyfagos, ac mewn rhai achosion, mewn ysgolion mwy lleol.

76. Fel y rhestrwyd yn y penderfyniad yng nghyfarfod y Cyngor ar 24 Mawrth 2016, eir i'r afael â chynllunio lleoedd ysgol ledled y ddinas (drwy ymgynghori priodol) drwy ehangu'r ddarpariaeth bresennol, adeiladu ysgolion newydd a diwygio dalgylchoedd ysgolion fel y bo angen.

<u>Effaith ar ddisgyblion yng Nghymuned Pen-y-lan</u>

77. *Yr ansicrwydd presennol o ran p'un a yw plant sy'n byw yn nalgylch Ysgol Gynradd Marlborough yn cael eu heffeithio'n negyddol a'u niweidio'n emosiynol. . Ar hyn o bryd, mae plant o ddalgylch Ysgol Gynradd Marlborough yn mynd i fynd i nifer o ysgolion gwahanol, a fydd yn rhannu grwpiau o gyfoedion. Ceir tystiolaeth helaeth bod cynnal grwpiau o cyfoedion yn ffynhonnell pwysig ar gyfer datblygiad cymdeithasol, emosiynol ac academaidd (NFER 2006, Young Minds, a Nuffield Foundation 2005, Pratt a George 2005)*

78. *Mae'r defnydd presennol o feini prawf pellter nid yn unig yn rhoi plant Marlborough dan anfantais o ran cael eu derbyn i Ysgol Uwchradd Caerdydd ond hefyd yn eu rhoi dan anfantais wrth wneud cais am le mewn ysgol heb fod yn eu dalgylch. Mae risg y bydd plant yn cael lle ym mha bynnag ysgol sydd ar ôl wedi i bawb arall gael lle, a allai fod cryn bellter o'u cartref a'u cymuned.*

79. *Mae'r ansicrwydd yn effeithio ar gydlyniad cymunedol. Mae plant sydd wedi byw eu bywyd cyfan yn y gymuned leol yn cael gwrthod lle yn Ysgol Uwchradd Caerdydd ac nid yw hynny'n deg nac yn gyson â'r nod o greu cymunedau cynaliadwy fel y nodir yn y Cynlluniau Datblygu Lleol.*

80. *Ni fydd teuluoedd eisiau byw ym Mhen-y-lan a bydd enw da Ysgol Gynradd Marlborough yn dioddef.*

<u>Arfarniad o'r safbwyntiau a fynegwyd</u>

81. Cydnabyddir bod ymchwil fel yr astudiaeth o 30 o blant a gynhaliwyd gan Pratt a George (2005) sy'n amlygu effaith rhwydweithiau cymdeithasol wrth gefnogi pontio. Mae hefyd amrywiaeth helaeth o ymchwil gan gynnwys adroddiadau eraill a welwyd gan yr ymatebydd, sy'n dangos bod nifer o ffactorau sydd yr un mor bwysig os nad yn bwysicach o ran cefnogi pontio effeithiol o addysg gynradd i uwchradd.

82. Mae ymchwil arall (Weller, S. 2006), yn awgrymu bod cael cydnabyddion o'r grŵp cyfoedion hefyd yn rhoi'r cynefindra gofynnol wrth ddechrau addysg uwchradd a rhoi'r gefnogaeth sydd ei hangen wrth bontio gan helpu plant i setlo yn ystod y cyfnod pontio cychwynnol hyd yn oed os nad ydynt yn parhau'n ffrindiau. Yn achos Ysgol Gynradd Marlborough, ni ddisgwylir i blant bontio i ysgol uwchradd arall ar eu pen eu hunain ac felly byddent yn elwa o symud ymlaen gyda rhai o'u ffrindiau. Anogir/ disgwylir i ysgolion cynradd sicrhau bod

trefniadau pontio clir ar waith gyda'r ysgol uwchradd y bydd eu disgyblion yn ei mynychu.

83. Hefyd, nid yw'n dilyn y bydd plant sy'n mynychu'r un ysgol uwchradd yn *parhau'n ffrindiau*, yn enwedig gan fod ysgolion yn aml yn cymysgu'r disgyblion ac yn rhoi'r plant mewn dosbarthiadau gwahanol, '*gyda chyfeillgarwch ymysg disgyblion cynradd yn parhau'n well ymysg y rheiny mewn ysgolion uwchradd gwahanol na phlant yn yr un ysgol ond mewn dosbarth gwahanol'*.

84. Fe wnaeth y mwyafrif o gyfranogwyr yn yr ymchwil Families and Social Capital ESRC a drafodwyd gan Weller, setlo yn eu hysgol uwchradd newydd a chreu cyfeillgarwch newydd. Dangosodd nifer o'r adroddiadau fod lleiafrif yn elwa o bontio gyda ffrindiau yn enwedig plant agored i niwed sy'n cael trafferth gyda phontio. Yn yr un modd, i nifer gall wynebau cyfarwydd (gan gynnwys cydnabyddion) helpu i fagu hyder a chreu ymdeimlad o berthyn. Fodd bynnag, '*Mae'r mwyafrif o blant yn wydn, ac yn gallu addasu a datblygu ffrindiau mewn amgylchiadau newydd*' ac mae'r ystod o fesurau pontio a roddir mewn lle gan ysgolion yn cefnogi creu perthnasau effeithiol gyda chyfoedion er mwyn lleihau pryder a chefnogi integreiddio'r holl ddisgyblion yn eu hawyrgylch newydd.

85. Mae'r meini prawf pan fo mwy o alw na lleoedd yn cael ei briodoli ar sail daearyddol gan roi blaenoriaeth i'r rheiny sy'n byw o fewn dalgylch ysgol ac hefyd yn ystyried pellter o'r cyfeiriad ysgol i'r cartref. Mae hyn yn ceisio cynnal, lle y bo'n bosibl, plant yn mynychu ysgol leol.

<u>Trefniadau teithio</u>

86. *Mae'r arfer o deuluoedd yn symud i ddalgylch Ysgol Uwchradd Caerdydd dros dro er mwyn sicrhau lle yn yr ysgol yn arwain at blant yn teithio ar draws y ddinas i fynychu ysgolion y tu allan i'w dalgylchoedd.*

<u>Arfarniad o'r safbwyntiau a fynegwyd</u>

87. Mae'r awgrym bod teuluoedd yn symud i ddalgylch Ysgol Uwchradd Caerdydd dros dro er mwyn sicrhau lle yn yr ysgol yn cael ei grybwyll ym mharagraffau 56 – 67.

88. Mae nifer y disgyblion a dderbynnir i Ysgol Uwchradd Caedydd ar sail y meini prawf dalgylch sydd ar y gofrestr yn Ysgol Uwchradd Caerdydd ar gyfer Blynyddoedd Cwricwlwm 7-11 nad ydynt yn byw yn nalgylch yr ysgol mwyach yn cyfateb i tua 10 y flwyddyn. Ni ddisgwylir i nifer y disgyblion o'r tu allan i'r dalgylch sy'n mynychu'r ysgol gael effaith sylweddol ar y rhwydwaith trafnidiaeth.

<u>Y Peilot Tair Blynedd</u>

89. *Fel gyda'r cynnig derbyn i ysgolion cydlynol, gellid ystyried cynllun peilot tair blynedd o faen prawf 'hyd preswyliad' i alluogi adolygiad.*

Arfarniad o'r safbwyntiau a fynegwyd

90. Sonnir am yr awgrym i gyflwyno 'hyd preswyliad' ym mharagraffau 24-34.

Meini Prawf Brodyr a Chwiorydd

91. *Dylai'r cysylltiad brodyr/ chwiorydd gael ei ymestyn i gynnwys chweched dosbarth fel yn Ysgol Esgob Llandaf ac Ysgol Uwchradd yr Eglwys Newydd..*

Arfarniad o'r safbwyntiau a fynegwyd

92. Ar hyn o bryd mae darpariaeth chweched dosbarth ar gael mewn 12 o'r 19 ysgol uwchradd yng Nghaerdydd, yn ogystal â Choleg Caerdydd a'r Fro a Choleg Chweched Dosbarth Catholig Dewi Sant.

93. Mae'r Cyngor wedi cytuno i roi'r cyfrifoldeb o benderfynu ar drefniadau derbyn ar gyfer darpariaeth chweched dosbarth, gan gynnwys y prosesau gweinyddol a ddefnyddir i ystyried derbyniadau i'r chweched dosbarth, i Gyrff Llywodraethu Ysgolion Uwchradd Cymunedol. Mae'r chweched dosbarth yn anstatudol a gall awdurdodau derbyn osod trefniadau yn seiliedig ar ddawn. Mae'r Cyngor yn credu taw'r chweched dosbarth ddylai reoli'r gwaith o gynllunio ar gyfer yr ystod o bynciau sydd ar gael ar lefel Addysg Bellach a'u darparu.

94. Pe bai'r Cyngor yn ystyried gwneud newid i'w Bolisi Derbyn i Ysgolion drafft 2018/19, i gynnwys meini prawf fel "brodyr / chwiorydd yn y chweched dosbarth", byddai hyn yn cael ei ystyried fel newid sylweddol a byddai hyn yn golygu ymgynghoriad pellach, na fyddai'n bosibl o fewn y cyfnod amser i ystyried trefniadau derbyn i ysgolion 2018-19.

Preswyliad mewn dalgylch

95. *Mae'r gwiriadau i sicrhau preswyliad mewn dalgylch yn annigonol. Dylai'r meini prawf derbyn gael eu haddasu i nodi bod rhaid darparu tystiolaeth ddogfennol.*

Arfarniad o'r safbwyntiau a fynegwyd

96. Ni cheisir tystiolaeth ddogfennol o breswyliad fel mater o drefn h.y. mewn perthynas â dewisiadau ar gyfer ysgolion sydd â llai o alw na lleoedd (llai o ymgeiswyr na nifer y lleoedd sydd ar gael).

97. Pan fo dewisiadau rhieni am ysgol yn fwy na nifer y lleoedd sydd ar gael, cynhelir prosesau gwirio cyfeiriad.

98. Mae'r Cyngor yn archwilio gwybodaeth a gynhelir gan ysgolion (gan gynnwys hanes cyfeiriad disgybl) a gwybodaeth Treth Gyngor a Chofrestr Etholiadol (a gynhelir gan y Cyngor), i baru disgyblion a rhieni gyda chyfeiriadau a gyflwynwyd yn ystod y broses ymgeisio).

99. Ceisir gwybodaeth ychwanegol pan fo anghysondeb a / neu pan fo pryder o ran dilysrwydd y wybodaeth. Os oes anghysondeb rhwng y wybodaeth a ddelir gan y Cyngor a'r wybodaeth a gyflwynwyd gan yr ymgeisydd neu fod unrhyw bryder o ran dilysrwydd y wybodaeth hon, cynhelir ymchwiliadau pellach a gofynnir am wybodaeth bellach, megis:

- Gwybodaeth credyd
- Cyfriflenni banc
- Gwybodaeth budd-dal plant
- Trwydded yrru

100. Nid yw'r rhestr hon yn gyflawn. Cynhelir ymweliadau swyddog os bydd angen.

101. Fel y nodir yng Nghod Derbyn i Ysgolion Llywodraeth Cymru (3.40) “Pan fo awdurdod derbyn wedi cynnig lle ysgol, yn gyfreithiol ni all dynnu'r cynnig hwnnw'n ôl oni bai am mewn rhai amgylchiadau. Gall y rhain gynnwys pan gynigiodd yr awdurdod derbyn le ar sail cais twyllodrus neu fwriadol gamarweiniol gan riant neu berson ifanc (er enghraifft, honni'n anwir eu bod yn byw yn y dalgylch) a arweiniodd at wrthod lle i blentyn â chais cryfach."

102. Gwneir pob ymdrech i wirio preswyliad ymgeiswyr yn y dalgylch ar gyfer ysgolion sy'n derbyn mwy o geisiadau na lleoedd cyn i'r cynigion gael eu gwneud. Fodd bynnag, pe bai'r Cyngor yn cael tystiolaeth o wybodaeth dwyllodrus i gael lle mewn ysgol na fyddai'r disgybl wedi cael lle ynddi fel arall, caiff y cynnig am le ei dynnu'n ôl. Dyna ddigwyddodd yn ystod yr ail rownd o ddyrannu i Ysgol Uwchradd Caerdydd ar gyfer derbyniadau i grŵp oedran blwyddyn 7 ym mis Medi 2016, pan gafodd lle ei dynnu'n ôl a'i ail-ddyrannu i blentyn a fyddai wedi cael lle yn y rownd dyrannu cyntaf.

Blaenoriaethu disgyblion o ysgolion cynradd Saesneg am leoedd yn Ysgol Uwchradd Caerdydd

103. *Mae nifer o rieni a ddewisodd addysg gynradd Gymraeg neu ffydd yn dewis newid i addysg uwchradd gymunedol Saesneg sy'n ei gwneud hi'n anodd iawn i'r Cyngor gynllunio lleoedd ar gyfer y pedair ysgol gynradd gymunedol Saesneg yn nalgylch Ysgol Uwchradd Caerdydd. Yn lle maen prawf hyd gellid blaenoriaethu parhad addysg i'r rheiny sydd wedi dewis ysgol gynradd gymunedol Saesneg ac mae'r un peth yn wir i'r rheiny sydd wedi dewis addysg Gymraeg neu ffydd.*

104. *Nid oes opsiynau dalgylch eraill ar gael i ddisgyblion Marlborough gan nad ydynt yn siarad Cymraeg. Gall y polisi hwn wahaniaethu i ddisgyblion gwyn, anghrefyddol h.y. os yw disgybl wedi mynychu ysgolion crefyddol neu Gymraeg cynradd, dylai'r rhain gael eu cynnig fel eu dewis cyntaf pe bai mwy o geisiadau na lleoedd mewn ysgolion megis Ysgol Uwchradd Caerdydd.*

Arfarniad o'r safbwyntiau a fynegwyd

105. Yn y sector addysg a gynhelir yng Nghaerdydd, mae mathau o ysgolion yn cynnwys y canlynol: Cymunedol Saesneg; Sefydledig; Catholig; yr Eglwys yng Nghymru a Chymunedol Cymraeg. Ar unrhyw bwynt yn ystod addysg plentyn gall rhieni fynegi dewis ar gyfer y math o addysg y maent yn ei dymuno i'w plentyn. I'r rheiny sy'n dymuno trosglwyddo i addysg Gymraeg yn ddiweddarach, mae'r Cyngor yn gweithredu unedau Ymdrochi'r Gymraeg yn ystod addysg gynradd ac uwchradd i hwyluso'r trosglwyddiad.

106. Fel y nodir ym Mholisi Llywodraeth Cymru, *Iaith Pawb*: *Cynllun Gweithredu Cenedlaethol ar gyfer Cymru Ddwyieithog,* sy'n ymwneud â chreu Cymru ddwyieithog, hynny yw, gwlad lle gall pobl ddewis byw eu bywydau trwy'r Gymraeg neu'r Saesneg a lle bo'r ddwy iaith yn ffynhonnell o falchder a chryfder i bob un ohonom, mae rhieni o bob cefndir wedi cael y cyfle i ddewis i'w plentyn fynychu ysgol Gymraeg neu Saesneg.

107. Dros y pum mlynedd diwethaf o dderbyn disgyblion ym Mlwyddyn 7, dim ond 9% o'r holl blant o ysgolion cynradd yr Eglwys yng Nghymru neu Gatholig Caerdydd sydd wedi cael eu derbyn mewn ysgol uwchradd anghrefyddol yng Nghaerdydd. Yn yr un modd, dros y pum mlynedd diwethaf o dderbyn disgyblion ym Mlwyddyn 7 ym mis Medi, mae llai na 9% o'r holl blant o ysgolion cynradd Cymraeg Caerdydd wedi cael eu derbyn i ysgol uwchradd Saesneg yng Nghaerdydd.

108. Fel y rhestrir yng Nghod Derbyn i Ysgolion Llywodraeth Cymru (E.10), mae Deddf Hawliau Dynol 1998 yn cyflwyno hawl mynediad i addysg. Nid yw hyn yn golygu sicrhau lle mewn ysgol benodol. Fodd bynnag, mae angen i Awdurdodau Derbyn ystyried rhesymau rhieni dros fynegi dewis pan fônt yn gwneud penderfyniadau am ddyrannu lleoedd ysgol, i ystyried hawliau rhieni dan y Ddeddf, er efallai na fydd hyn o angenrheidrwydd yn arwain at ddyrannu lle'.

109. Ni all y Cyngor weithredu meini prawf seiliedig ar flaenoriaeth heb barchu cefndir crefyddol neu anghrefyddol ymgeisydd neu ddymuniad am gyfrwng addysg neu byddai'n gwahaniaethu'n anghyfreithlon yn erbyn y rheiny gyda'r nodweddion hynny (yn ôl Deddf Cydraddoldeb

2010). Er bod hyn yn berthnasol o ran penderfynu ar y meini prawf derbyn ar gyfer Ysgolion Cymunedol Cymraeg a Saesneg, mae eithriad yn berthnasol dan God Derbyn i Ysgolion Llywodraeth Cymru 2.29 sy'n nodi: "Wrth osod meini prawf pan fo mwy o alw na lleoedd mae'n rhaid i awdurdodau beidio â: Rhoi blaenoriaeth i blant ar sail ffydd grefyddol ac eithrio pan fo'r ysgol wedi'i dynodi fel un â chymeriad crefyddol (Deddf Cydraddoldeb 2010)." Felly, dim ond Awdurdodau Derbyn ysgolion ffydd all ddewis blaenoriaethu derbyn plant ar ffydd grefyddol.

Dylid rhoi ystyriaeth i bellter pwynt canolog

110. *Dylid rhoi blaenoriaeth i bellter pwynt canolog yn y dalgylch a / neu hyd presenoldeb yn un o'r pedair ysgol gynradd yn nalgylch Ysgol Uwchradd Caerdydd.*

Arfarniad o'r safbwyntiau a fynegwyd

111. Ni fyddai'n rhesymol defnyddio meini prawf pellter pan fo mwy o alw na lleoedd a fesurir i bwynt cyfeiriad ac ohono ac eithrio ysgol (megis o bwynt canolog dalgylch). Byddai'r disgyblion hynny sy'n bwy agosaf at ysgol yn cael eu hystyried fel blaenoriaeth is na'r rheiny sy'n bwy agosaf at bwynt mympwyol ond sy'n byw ymhellach o'r ysgol.

112. Mae Cod Derbyn i Ysgolion Llywodraeth Cymru 2.48 yn nodi "mae'r pellter rhwng y cartref a'r ysgol yn faen prawf clir a gwrthrychol pan fo mwy o alw na lleoedd."

Y Broses Apelio

113. *Diffyg eglurder o ran y broses apelio. Dim 'meini prawf llwyddiant' ar gyfer apêl felly nid yw rhieni yn gwybod yr hyn mae'n rhaid iddynt ei ddangos yn yr apêl ac nid yw'r rheiny sy'n beirniadu'r apêl yn gwybod p'un a ddylid ystyried yr apêl yn llwyddiannus ai peidio sy'n golygu bod yr apêl yn aflwyddiannus.*

Arfarniad o'r safbwyntiau a fynegwyd

114. Mae'r broses apeliadau ysgol yn annibynnol ar broses dderbyn y Cyngor ar gyfer ysgolion.

115. Mae'r broses apelio yng Nghaerdydd yn eglur ac yn cydymffurfio â Chod Apeliadau Derbyn i Ysgolion Llywodraeth Cymru, sy'n nodi'r profion cyfreithiol y mae'r Panel Apeliadau Derbyn i Ysgolion Annibynnol yn eu defnyddio wrth ystyried apeliadau. Mae'r broses ei hun yn cynnwys 3 aelod panel annibynnol yn clywed yn uniongyrchol gan rieni ynghylch amgylchiadau personol eu teulu ar gyfer pob apêl ac mae ymgynghorydd cyfreithiol (Clerc i'r Panel) yn bresennol drwyddi

draw. Diweddarodd y Panel ei Gwestiynau Cyffredin yn ddiweddar a'u hanfon at bob apelydd i geisio cynorthwyo rhieni gyda'r broses; roedd yn cynnwys rhesymau cyffredin a gyflwynir gan rieni eraill, fodd bynnag gan fod bob apêl yn wahanol nid yw'n bosibl rhoi "meini prawf llwyddiant."

116. Mae Cyngor Dinas Caerdydd yn ffodus o gael bron i 20 o aelodau panel annibynnol sy'n derbyn hyfforddiant rheolaidd ynghylch y profion cyfreithiol sydd ganddynt ac maent yn brofiadol iawn wrth benderfynu ar p'un a yw apêl yn llwyddiannus ai peidio. Maent hefyd yn cynnig safbwynt cwbl annibynnol o'r Cyngor ac yn defnyddio'u barn eu hunain wrth ddefnyddio egwyddorion cyfiawnder naturiol wrth ystyried apeliadau. Mae gan rieni yr hawl i gwyno i'r Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus os ydynt yn anhapus gyda'r broses Apeliadau ac er gwaetha'r ffaith bod Cyngor Dinas Caerdydd wedi hwyluso bron i 1500 o apeliadau yn y tair blynedd ysgol lawn ddiwethaf (2013/14 i 2015/16), ni chynhaliodd yr Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus unrhyw gwynion yn gysylltiedig â'r broses apeliadau.

<u>Canllawiau cliriach ar sail feddygol a chymdeithasol cymhellol</u>

117. *Mae angen canllawiau cliriach ar yr hyn sy'n cyfateb i sail feddygol neu gymdeithasol cymhellol.*

<u>Arfarniad o'r safbwyntiau a fynegwyd</u>

118. Caiff yr holl geisiadau gan gynnwys gwybodaeth ategol eu hasesu'n unigol. Gall plant ond gael eu blaenoriaethu i'w derbyn dan y meini prawf "Disgyblion y mae'r Cyngor yn credu bod sail feddygol cymhellol neu sail gymdeithasol cymhellol dros eu derbyn i ysgol benodol ynglŷn â nhw" pan fo argymhelliad ysgrifenedig clir gan ymgynghorydd meddygol neu weithiwr cymdeithasol neu weithiwr proffesiynol tebyg, yn esbonio y dylai'r plentyn gael ei dderbyn i ysgol benodol". Mae'r canllaw hwn ar holl ffurflenni cais derbyn i ysgolion y Cyngor a dogfennaeth sy'n ymwneud â'r cais.

<u>System Ysgol Fwydo</u>

119. *Mae'r Cyngor yn creu swigen eiddo y gellir ei hosgoi drwy ddad-flaenoriaethu agosrwydd i'r ysgol a'i ddisodli gyda system 'ysgol fwydo' lle rhoddir blaenoriaeth i'r rheiny sy'n byw yn y dalgylch ac yn mynychu ysgol gynradd bartner dros rai eraill sy'n byw yn y dalgylch, neu brawf o ba mor hir y mae'r plentyn wedi bod yn byw yn y dalgylch (preswyliad).*

<u>Arfarniad o'r safbwyntiau a fynegwyd</u>

120. Sonnir am yr awgrym i gyflwyno 'system ysgol fwydo'/'hyd preswyliad' ym mharagraffau 24-34.

<u>Darpariaeth Chweched Dosbarth</u>

121. *A fyddai'n bosib dod â cheisiadau chweched dosbarth i mewn i'r Cyngor er mwyn capio, tracio a rheoli niferoedd fel sy'n cael ei gynnig dan drefniant derbyn cydlynol i helpu i gynllunio addysg ôl-16 ledled y ddinas?*

Arfarniad o'r safbwyntiau a fynegwyd

122. Sonnir am yr awgrym ynghylch darpariaeth chweched dosbarth ym mharagraffau 92-94.

Dewisiadau Amgen

123. *Nid yw hyn yn golygu y byddai newid ysgol uwchradd dalgylch Ysgol Gynradd Marlborough yn ddewis amgen rhesymol, fel y mae rhai aelodau cyngor wedi'i awgrymu. Byddai angen i unrhyw adolygiad o'r fath ystyried yr ysgolion uwchradd amgen ar gyfer pob ardal yn nalgylch presennol Ysgol Uwchradd Caerdydd. Mae dalgylch Parc y Rhath, er enghraifft, yn eithaf agos i Ysgol Uwchradd Cathays.*

124. *O ystyried y galw am leoedd, dylid ystyried sefydlu ysgol 3-16 ar safle Howardian gan gymryd bod safle o faint priodol ar gael.*

Arfarniad o'r safbwyntiau a fynegwyd

125. Fel y nodir ym mharagraff 76, eir i'r afael â chynllunio lleoedd ysgol ledled y ddinas (drwy ymgynghori priodol) drwy ehangu'r ddarpariaeth bresennol, adeiladu ysgolion newydd a diwygio dalgylchoedd ysgolion fel y bo angen.

126. Mae'r Awdurdod Lleol ar hyn o bryd yn edrych ar anghenion ar draws y ddinas o ran y lleoedd sydd ar gael ac yn ystyried a oes digon o le fel rhan o broses gynllunio Band B Rhaglen Ysgolion yr 21ain Ganrif, sy'n cynnwys ystyried darpariaeth gynradd Gymraeg a Saesneg.

127. Byddai unrhyw gynigion newydd sy'n cael eu dwyn ymlaen yn amodol ar ymgynghoriad cyhoeddus llawn.

Trefniadau ardal dalgylch

128. *Dylid ystyried dileu ardaloedd dalgylchoedd deuol sy'n rhoi mantais i'r bobl sy'n byw yn yr ardaloedd hynny dros eraill.*

Arfarniad o'r safbwyntiau a fynegwyd

129. Mae pob disgybl o oedran uwchradd sy'n byw yng Nghaerdydd yn byw yn ardal un ysgol uwchradd Saesneg ac un ysgol uwchradd Gymraeg.

130. Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion o oedran cynradd sy'n byw yng Nghaerdydd yn byw yn nalgylch un ysgol gynradd Saesneg ac un ysgol gynradd Gymraeg, gyda'r eithriadau canlynol:

- Gweithredwyd trefniadau rhannu dalgylchoedd cynradd Saesneg yn Llanisien, Llys-faen a Draenen Pen-y-graig fel rhan o broses i ad-drefnu darpariaeth er mwyn lliniaru pryderon lleol a godwyd gan randdeiliaid, gan gynnwys Ysgolion, Llywodraethwyr a Rhieni yn yr ardal.

- Mae dalgylch cynradd Saesneg yn cael ei rannu ers cryn amser yn Nhreganna. Cynhaliwyd ymgynghoriad ar newidiadau i ddalgylchoedd, gan gynnwys dileu'r trefniant rhannu, yn 2016, ond mewn ymateb i bryderon a godwyd gan randdeiliaid, gan gynnwys Ysgolion, Llywodraethwyr a Rhieni yn yr ardal, penderfynwyd cadw'r trefniadau presennol.

- Mae ysgolion dwy ffrwd yn gwasanaethu rhannau o ogledd-orllewin Caerdydd, lle mae rhai cyfeiriadau'n cael eu gwasanaethu gan un ysgol ar gyfer darpariaeth Gymraeg a darpariaeth Saesneg.

131. Nid oes cynigion i ddiwygio'r dalgylchoedd hyn ar hyn o bryd. Byddai unrhyw newidiadau arfaethedig i ddalgylchoedd yn amodol ar ymgynghoriad cyhoeddus llawn.

<u>Cymorth i ysgolion</u>

132. *Dylid ystyried dyrannu adnoddau ychwanegol i gefnogi ysgolion sy'n cael llai o geisiadau neu o leiaf gynyddu'r gwaith o hyrwyddo'r hyn y gall ysgolion ei gynnig fel y gall rhieni wneud dewisiadau hyddysg yn hytrach na dibynnu ar ganfyddiadau.*

<u>Arfarniad o'r safbwyntiau a fynegwyd</u>

133. Mae'r Cyngor yn gweithio'n agos gyda chyrff llywodraethu ysgolion i sicrhau bod safonau mewn ysgolion yn uchel, bod yr addysgu'n dda a bod yr arweinyddiaeth a'r llywodraethiant yn gadarn.

134. Fel y nodir yn *Caerdydd 2020: gweledigaeth newydd ar gyfer addysgu a dysgu yng Nghaerdydd*, mae'r Cyngor wedi ymrwymo i sicrhau bod pob plentyn a pherson ifanc yng Nghaerdydd yn mynychu ysgol wych ac yn datblygu'r wybodaeth, y sgiliau a'r nodweddion a fydd yn eu harwain i fod yn llwyddiannus, yn gynhyrchiol yn economaidd ac yn ddinasyddion cydwybodol.

<u>Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015</u>

135. *Mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 yn ei gwneud yn ofynnol i'r Cyngor ystyried buddion plant a phobl ifanc. Mae'r polisi presennol yn groes i hyn.*

Arfarniad o’r safbwyntiau a fynegwyd

136. Mae Deddf Llesiant Cenedlaethau’r Dyfodol (Cymru) 2015 yn ei gwneud yn ofynnol i gyrff cyhoeddus sicrhau bod eu penderfyniadau’n ystyried yr effaith y gallent ei chael ar bobl sy'n byw yng Nghymru yn y dyfodol. Mae’r Cyngor wedi gwneud hyn mewn perthynas â’i drefniadau derbyn arfaethedig. Mae holl Awdurdodau Derbyn Cymru’n gyfreithiol rwym wrth Adran 84 Deddf Safonau a Fframwaith Ysgolion 1998 (Cod Derbyn i Ysgolion Llywodraeth Cymru) ac mae’r Cyngor hefyd wedi cydymffurfio â’r ddeddfwriaeth honno. Ystyrir hefyd gyfrifoldeb y Cyngor i ddarparu a hyrwyddo safonau Addysg uchel dan Deddf Addysg 1996.

Rhestrau Aros

137. *Os bydd rhieni’n derbyn lle mewn ysgol ddewis is, a fydd disgyblion yn aros ar y rhestr aros ar gyfer eu hysgol ddewis uwch?*

Arfarniad o’r safbwyntiau a fynegwyd

138. Mewn amgylchiadau lle cynigiwyd dewis uwch yr ymgeisydd, caiff dewisiadau is eu tynnu'n ôl yn awtomatig. Lle cynigiwyd ail ddewis neu is, caiff yr ymgeisydd ei roi’n awtomatig ar y rhestr/au aros ar gyfer yr ysgol/ion dewis uwch. Oni bai bod rhiant yn dewis tynnu plentyn oddi ar restr aros neu fod rhestr aros wedi dirwyn i ben (ddim yn gynharach na 30 Medi mewn perthynas â’r rownd dderbyn arferol, yn unol â Chod Derbyn i Ysgolion 3.27 Llywodraeth Cymru), ni ellir tynnu'r ymgeisydd oddi ar restr aros ond os cynigir lle iddo yn yr ysgol.

Crynodeb

139. Roedd nifer o ymatebion yn awgrymu newidiadau i’r meini prawf derbyn i ysgolion. Byddai unrhyw newid sylweddol yn gofyn am ystyriaeth bellach, gan gynnwys ymchwil ehangach i'r meini prawf pan fo mwy o geisiadau na lleoedd a ddefnyddir ar gyfer derbyn i ysgolion cymunedol mewn awdurdodau eraill. Byddai unrhyw newidiadau yn sgil hyn yn amodol ar ymgynghoriad.

**Crynodeb o’r Ymgynghoriad ar Drefniadau Derbyn Ysgolion Uwchradd Cydlynol arfaethedig ar gyfer y cyfnod 2018-2020**

140. Fel y nodir ym mharagraff 7, cynhaliwyd ymgynghoriad penodol ar gyflwyno trefniadau derbyn cydlynol ar gyfer y grŵp oedran Blwyddyn 7 ar gyfer derbyn ym mis Medi 2018, mis Medi 2019 a mis Medi 2020.

141. Rhedodd yr ymgynghoriad rhwng 05 Rhagfyr 2016 a 23 Ionawr 2017.

142. Roedd y broses ymgynghori yn cynnwys:

- Cyhoeddi Dogfen Ymgynghori ar wefan y Cyngor (mae copi o'r Ddogfen Ymgynghori yn Atodiad 2);
- Dosbarthu llythyr drwy ysgolion i rieni pob disgybl mewn ysgolion meithrin a chynradd a gynhelir yn amlinellu'r cynnig ac yn rhoi manylion am sut i gael gafael ar y Ddogfen Ymgynghori ar-lein (mae copi o'r llythyr yn Atodiad 4);
- Chwe sesiwn galw heibio i'r cyhoedd lle roedd swyddogion ar gael i ateb cwestiynau;
- Slip ymateb i'w ddychwelyd drwy'r post neu e-bost, wedi'i atodi i'r Ddogfen Ymgynghori;
- Ffurflen ymateb ar-lein yn www.caerdydd.gov.uk/trefniadauderbyn.

143. Mae safbwyntiau a fynegwyd mewn sesiynau galw heibio a drefnwyd gan y Cyngor ac ar bapur neu'n electronig drwy'r sianelau priodol wedi'u cofnodi.

**Ymatebion a gafwyd ynghylch y cynnig i gyflwyno trefniadau derbyn cydlynol yn ystod y cyfnod ymgynghori**

144. Cafwyd 149 ymateb. Roedd y mwyafrif yn y sesiynau galw heibio ac mewn gohebiaeth ysgrifenedig yn cefnogi'r trefniadau derbyn uwchradd cydlynol arfaethedig ar gyfer y grŵp oedran Blwyddyn 7.

145. Cafwyd ymatebion ffurfiol gan chwe Awdurdod Derbyn â chyfrifoldeb am dderbyn i ddarpariaeth uwchradd yng Nghaerdydd: Ysgol Uwchradd yr Eglwys yng Nghymru Teilo Sant, Ysgol Uwchradd yr Eglwys yng Nghymru Esgob Llandaf, Ysgol Uwchradd Gatholig Illtyd Sant, Ysgol Uwchradd Gatholig Corpus Christi, Ysgol Uwchradd Mair Ddihalog, Ysgol Uwchradd yr Eglwys Newydd.

146. Cafwyd ymatebion hefyd gan nifer o ysgolion cymunedol y mae'r Awdurdod Lleol yn Awdurdod Derbyn arnynt. Roedd y rhain yn cynnwys: Ysgol Gyfun Radur, Ysgol Uwchradd Cathays, Ysgol Uwchradd Fitzalan, Ysgol Gyfun Gymraeg Plasmawr ac Ysgol Gynradd Springwood.

147. Cyflwynwyd ymateb ar y cyd gan Aelodau Lleol Pen-y-lan.

148. Mae'r pwyntiau a godwyd yn yr ymgynghoriad wedi'u nodi mewn llythrennau *italig* isod ac wedi'u grwpio yn ôl y materion a godwyd lle y bo'n briodol. Gellir gweld ymateb y Cyngor i bob pwynt isod, dan y pennawd *"Arfarniad o'r safbwyntiau a fynegwyd."*

**Ymatebion Awdurdodau Derbyn**

<u>Ysgol Uwchradd yr Eglwys yng Nghymru Teilo Sant</u>

149. Roedd yr ymateb gan Ysgol Uwchradd yr Eglwys yng Nghymru Teilo Sant yn cynnwys y pwyntiau canlynol (gellir gweld copi o'r ymateb llawn yn Atodiad 5):

150. *Mewn egwyddor, mae'r Corff Llywodraethu yn cefnogi'r broses rydych chi'n ymgynghori arni. Aeth cynrychiolwyr o'r Corff Llywodraethu a'r ysgol i'ch cyfarfod diweddar a mynegi'r farn hon.*

Arfarniad o'r safbwyntiau a fynegwyd

151. Mae'r Cyngor yn cydnabod y farn a fynegwyd.

Ysgol Uwchradd yr Eglwys yng Nghymru Esgob Llandaf

152. Roedd yr ymateb gan Ysgol Uwchradd Esgob Llandaf yn cynnwys y pwyntiau canlynol (gellir gweld copi o'r ymateb llawn yn Atodiad 5):

153. *Barn y llywodraethwyr yw fod y broses dderbyn arfaethedig yn ychwanegu lefel arall at broses sydd eisoes yn ddiangen ar gyfer yr ysgol. Mae prosesau eisoes ar waith ar gyfer derbyn i'r ysgol ac maent yn cael eu rheoli'n effeithiol. Mae'r llywodraethwyr yn deall y cymhlethdodau o amgylch y broses dderbyn ond ar hyn o bryd nid ydynt o'r farn y bydd y fformat newydd yn fuddiol.*

154. *Ar dudalen 5 nodir bod eisoes gan yr awdurdod lleol system ar-lein ar gyfer ceisiadau, ond fel rydych yn gwybod, nid yw hynny'n wir am Esgob Llandaf. Yn sgil hyn, mae newid i'r system ar-lein gydlynol yn gam mwy ar gyfer yr ysgol hon nag y byddai ar gyfer eraill. A fyddai system ar-lein a rennir? Pwy fyddai'n cynnal y system, a phwy fyddai'n talu?*

155. *Mae'n anodd dilyn y rhesymeg ar dudalen 7, sef y byddai mwy o ddisgyblion yn cael cynnig lle yn eu hysgol ddewis o ganlyniad i'r system gydlynol. Mae cyfyngiadau ar yr ysgol o ran nifer y lleoedd Sylfaen a Chymunedol y gall eu cynnig. Ni all y system ymgeisio effeithio ar hyn. Yn yr un modd, nid yw gwybod pa blant gaiff eu derbyn yn helpu'r ysgol i gynllunio ei chyllideb, trefniadau dosbarth na threfniadau staffio.*

156. *O ran adnoddau, byddai graddio'r holl ymgeiswyr yn cynyddu llwyth gwaith y staff gweinyddol yn sylweddol. Nid yw'n amlwg pam y byddai'r cynnig hwn yn arwain at lai o apeliadau oherwydd bydd niferoedd sylweddol o ymgeiswyr aflwyddiannus o hyd oherwydd y cyfyngiad ar leoedd, nid y system ymgeisio, fel y cydnabyddir yn yr adran ar Drafnidiaeth sy'n cydnabod nad oes newid yn nifer y lleoedd ysgol sydd ar gael.*

157. *Nid yw'r Llywodraethwyr am fod yn rhan o beilot ar gyfer proses mor bwysig o ystyried y tarfu a'r ansicrwydd o gyflwyno'r newid mewn amgylchedd derbyn go iawn. Gofynnwn i'r peilot gael ei gynnal fel y gall yr ysgol ystyried y sefyllfa eto ar ôl i'r problemau sy'n gysylltiedig â system ar gyfer y sir gyfan gael eu datrys.*

Arfarniad o'r safbwyntiau a fynegwyd

158. Mae'r Cyngor yn cydnabod y farn a fynegwyd. Bydd y peilot (yn amodol ar ei weithrediad) yn cael ei adolygu a chaiff yr ysgol wybod am y datblygiadau.

Ysgol Uwchradd Gatholig Illtyd Sant

159. Roedd yr ymateb gan Ysgol Uwchradd Gatholig Illtyd Sant yn cynnwys y pwyntiau canlynol (gellir gweld copi o'r ymateb llawn yn Atodiad 5):

160. *Hoffai Illtyd Sant fod yn rhan o'r cynllun peilot derbyn hwn.*

Arfarniad o'r safbwyntiau a fynegwyd

161. Mae'r Cyngor yn cydnabod y farn a fynegwyd.

Ysgol Uwchradd Gatholig Corpus Christi

162. Roedd yr ymateb gan Ysgol Uwchradd Corpus Christi yn cynnwys y pwyntiau canlynol (gellir gweld copi o'r ymateb llawn yn Atodiad 5):

163. *Er mwyn ceisio gwneud y system gyfan yn decach i bawb, penderfynwyd cefnogi'r peilot. Cytunwyd hefyd, fodd bynnag, os na fydd y system newydd yn gweithio'n dda y bydd Llywodraethwyr yn ailasesu'r sefyllfa wrth drafod Polisi Derbyn yr ysgol cyn diwedd y peilot.*

Arfarniad o'r safbwyntiau a fynegwyd

164. Mae'r Cyngor yn cydnabod y farn a fynegwyd.

Ysgol Uwchradd Mair Ddihalog

165. Roedd yr ymateb gan Ysgol Uwchradd Mair Ddihalog yn cynnwys y pwyntiau canlynol (gellir gweld copi o'r ymateb llawn yn Atodiad 5):

166. *Mae'r ffenestr bresennol ar gyfer gwneud sylwadau ar y cynnig yn rhy gul, ac felly nid oedd yn bosibl cynnal trafodaeth lawn gyda'r Llywodraethwyr. Mae'r rhan fwyaf o Lywodraethwyr yn cwrdd bob hanner tymor sy'n golygu, yn dibynnu ar derfynau amser, y dylai'r Llywodraethwyr allu cwrdd i drafod. Mae'r ffenestr gul yn golygu nad yw hyn yn bosibl, ac mae'n ddechrau sigledig i'r sefyllfa;*

167. *Mae peilot o dair blynedd yn rhy hir o lawer; nid yw rhaglenni o'r fath yn dueddol o bara cyn hired oherwydd yr angen i asesu cynnydd ar unwaith. Byddem yn awgrymu dull gweithredu llai, yn ddaearyddol ac o ran amser;*

168. *Hoffem wybod faint o arian sydd wedi'i neilltuo ar gyfer staffio ychwanegol neu alwadau technegol, o ystyried ehangu'r system bresennol.*

169. <u>*Nodiadau o’r ddogfen Cynnig Derbyniadau:*</u>

a. *T.6 – credwn fod angen eglurhad o ‘mae 192 o rieni yn dal 205 o leoedd’ – er enghraifft, a ellid datrys hyn drwy weithredu dull llymach o dderbyn lleoedd o fewn ffenestr amser gulach?*
b. *T.7 – pa dystiolaeth sydd gennych chi i gefnogi 'Byddai plant yn cael profiad gwell a dechrau mwy effeithiol yn yr ysgol'? Os nad yw rhieni’n hapus gyda’r system bresennol, a fyddai’n bosib i chi amlinellu nifer a math y cwynion rydych chi wedi’u cael?*
c. *Beth fyddai’n digwydd pe nodir disgybl yng nghategori 1 ar gyfer sawl ysgol - pwy fyddai'n gwneud y penderfyniad? Pryd a sut y rhoddir gwybod i'r ysgol lwyddiannus? Credwn y byddai angen dull gweithredu clir fel bod ysgolion yn gallu gweld sut cawsant eu graddio gan rieni.*
d. *Ble mae’r dewis i rieni os mai dim ond un opsiwn sy'n cael ei gynnig? (t.8) Sut allech chi fod yn siŵr eu bod yn cael cynnig eu hysgol ddewis – pa ddata allwch chi ei ddefnyddio i gefnogi’r dybiaeth hon?*
e. *Beth fyddai’n digwydd os na fydd rhiant ond yn dewis un ysgol? Beth fyddai’n digwydd wedyn os na fydd lle yn cael ei gynnig yn yr ysgol honno?*
f. *Rydych chi’n dweud y gallai parhau â'r system bresennol arwain at gynnydd mewn anghydraddoldeb; yn ein hysgol ni mae nifer yr apeliadau wedi lleihau (er bod nifer y ceisiadau aflwyddiannus wedi aros yr un peth) gan fod ein systemau wedi dod yn fwy effeithlon o ran cefnogi rhieni.*
g. *Beth fyddai’n digwydd os byddai rhieni’n llenwi’r ffurflen gyffredin heb lenwi ffurflen yr ysgol? Sut mae’r ffurflen gyffredin yn edrych (dylem gael gweld hon cyn dod i unrhyw benderfyniad), sut mae’n gweithredu ac a yw’r system TGCh yn ddigon cadarn i ddelio â’r pwysau? Ai dim ond ysgol wirfoddol a gynorthwyir y gall rhieni ei dewis?*
h. *Rydych chi’n dweud ‘na fydd fawr o effaith, os o gwbl, ar y nifer ar y gofrestr’ (t.8). Beth fydd yr effaith? Beth yw eich tystiolaeth?*
i. *Sut effeithir ar y system pe byddem yn derbyn disgyblion o fwrdeistref arall?*

170. *Mae’r rhain yn bwyntiau allweddol y byddai’n rhaid mynd i’r afael â nhw cyn i’r Llywodraethwyr ymrwymo Ysgol Mair Ddihalog i unrhyw system newydd. Credwn fod gormod o ansicrwydd a gormod o dybiaethau di-dystiolaeth i ddod i benderfyniad pendant. Credwn fod angen peilot culach yn bendant i sicrhau y gellir profi’r tybiaethau hyn.*

171. Ymatebwyd i'r pwyntiau a godwyd. Yn sgil hyn, mae'r Corff Llywodraethu wedi cadarnhau nad ydynt am i'r Ysgol fod yn rhan o'r peilot ar yr adeg hon, ond eu bod yn agored i gymryd rhan yn y dyfodol. (Mae copi o'r ymateb llawn yn Atodiad 5).

Arfarniad o'r safbwyntiau a fynegwyd

Ysgol Uwchradd yr Eglwys Newydd

172. Roedd yr ymateb gan Ysgol Uwchradd yr Eglwys Newydd yn cynnwys y pwyntiau canlynol (gellir gweld copi o'r ymateb llawn yn Atodiad 5):

173. *Mae'r cynnig yn atal rhieni rhag gwneud cais i fwy nag un awdurdod derbyn ac felly'n effeithio ar hawliau plant. Nid yw'r ddogfen ymgynghori'n nodi hyn yn glir. Nid yw system sy'n gofyn i rieni restru tair ysgol yn darparu ar gyfer teuluoedd sydd am newid natur yr ysgol y bydd eu plentyn yn ei mynychu.*

174. *Mae'r cynnig fel petai wedi colli golwg ar anghenion plant penodol ac yn canolbwyntio ar wneud y broses dderbyn yn haws ar gyfer awdurdodau derbyn.*

175. *Nid yw'r ffurflen ymateb ar-lein yn berthnasol iawn. Byddai wedi bod yn ddefnyddiol targedu rhieni Blynyddoedd 3, 4 a 5 mewn ysgolion cynradd, pobl a fyddai'n cymryd rhan yn y cynllun peilot, oherwydd nid oes unrhyw ffordd o wybod a oes gan unrhyw rai o'r ymatebwyr blant yn y blynyddoedd hyn.*

176. *Mae llawer o heriau'r awdurdod o ran apeliadau derbyn yn sgil problemau'n ymwneud â chynllunio lleoedd ysgol (nid oes digon o leoedd ar gyfer disgyblion yn yr ardaloedd cywir o Gaerdydd). Ni fydd dod ynghyd fel gwasanaeth derbyn a rennir yn datrys hyn. Er bod cynlluniau strategol ar waith i gynyddu lleoedd uwchradd yn Nwyrain a Gorllewin y Ddinas, nid yw'r rhain yn debygol o fod mewn lle ar gyfer 2018, felly mae apeliadau yn debygol o aros ar y lefel bresennol, os nad uwch.*

177. *Byddai'r llywodraethwyr wedi mwynhau ymgynghori â'u rhieni, ac yn arbennig rhieni mewn ysgolion bwydo, ond nid yw'r amserlen yn caniatáu hyn.*

178. *Mae'r llywodraethwyr yn poeni bod y ddogfen ymgynghori'n nodi y byddai'n ofynnol i'r corff llywodraethu ymrwymo i gyfnod o dair blynedd. Gan fod yr ysgol yn Awdurdod Derbyn, credwn na all yr awdurdod lleol ddileu'r hawl statudol hon drwy unrhyw gontract ysgrifenedig ac ni fyddai angen cymeradwyaeth Swyddogion yr awdurdod ar y corff llywodraethu i gyflawni swyddogaethau o'r fath.*

179. *Nid yw'n glir o'r ddogfen ymgynghori a fydd y trefniadau derbyn cydlynol yn mynd rhagddynt os na fydd rhai o'r awdurdodau derbyn uwchradd yn cofrestru ar gyfer y trefniadau derbyn cydlynol.*

Arfarniad o'r safbwyntiau a fynegwyd

180. Ymatebwyd i'r pwyntiau a godwyd gan y Corff Llywodraethu a gwnaeth swyddogion gwrdd ag Is-bwyllgor Derbyniadau'r Corff Llywodraethu ar 28 Chwefror 2017. Cadarnhaodd Cadeirydd y Llywodraethwyr fod y Corff Llywodraethu yn fodlon i'r ysgol fod yn rhan o'r peilot yn amodol ar ei weithredu cyfredol yn llwyddiannus.

Ymatebion Ysgolion Cymunedol

181. Dangosodd yr ymatebion a gafwyd gan ysgolion cymunedol gefnogaeth i'r cynnig, gan nodi'r pwyntiau canlynol:

182. *Byddai'r cynnig yn ei gwneud yn haws i ysgolion ac yn lleddfu pryderon rhai rhieni fod gan rai plant fwy nag un lle.*

183. *O ran Ysgol Uwchradd Cathays, sy'n derbyn disgyblion o bob rhan o'r ddinas ac o nifer fawr o ysgolion cynradd, rydyn ni'n dioddef gan fod rhieni'n gwneud cais am le gyda ni ac ysgolion uwchradd eraill, ac felly nid yw ein nifer derbyn ym mis Mawrth byth yr un peth â'r nifer sy'n dechrau ym mis Medi. Bydd y trefniadau newydd yn golygu y gallwn ddefnyddio'r rhestr sy'n cael ei darparu ym mis Mawrth a chynllunio yn unol â hynny.*

184. *Mae Ysgol Uwchradd Fitzalan wedi bod yn ceisio dod o hyd i ddull cydlynol ers blynyddoedd, felly byddai'r cynnig newydd hwn yn gwneud llawer i ddatrys y broblem hon. Ar hyn o bryd mae'n rhaid i ni ofyn i rieni drwy ein cysylltiadau agos ag ysgolion cynradd i ba ysgol y maent am anfon eu plentyn, ond hyd yn oed wedyn mae'r penderfyniad yn aml wedi newid erbyn mis Medi.*

185. *Fodd bynnag, mae Ysgol Uwchradd Fitzalan yn gweithredu ar draws awdurdodau gwahanol; mae gennym nifer o ddisgyblion sydd â lle yn y Fro a bydd hyn yn parhau. Y prif bryder o hyd yw bod ein clwstwr yn rhy fawr. Hyd yn oed drwy gynyddu nifer y disgyblion i 300 (nad oes gennym le ar eu cyfer), mae mwy na 600 o ddisgyblion yn ein 9 ysgol glwstwr – bydd hyn yn broblem fawr iawn i'n rhieni.*

186. *Mae Ysgol Uwchradd Fitzalan hefyd o'r farn bod angen gwneud mwy i ddarparu ar gyfer y nifer fawr o deuluoedd sydd gennym nad ydynt yn siarad Saesneg ac nad oes ganddynt gyfeiriad e-bost heb sôn am fynediad i'r rhyngrwyd yn eu cartref. Mae'r Hyb/system ar-lein newydd wedi bod yn arbennig o heriol eleni, ac felly byddai angen ystyried hyn gydag unrhyw newidiadau yn y dyfodol.*

187. *Rydyn ni (Ysgol Uwchradd Fitzalan) wedi cwrdd â Swyddogion Derbyn eleni i fynd i'r afael â'r pryderon hyn a chynnig treialu neu ymgynghori ar effaith unrhyw newidiadau arfaethedig.*

188. *Mae Corff Llywodraethu Ysgol Plasmawr yn cymeradwyo'r cynnig i gydlynu derbyniadau uwchradd ar gyfer y grŵp oedran Blwyddyn 7.*

189. *Mae aelodau Corff Llywodraethu Ysgol Plasmawr yn falch o wybod bod swyddogion yn monitro cyfraddau geni, niferoedd yn deillio o dai arfaethedig a phatrymau darpariaeth Gymraeg ar oedran cynradd ac uwchradd gyda golwg ar ddwyn cynlluniau priodol ymlaen i fodloni'r galw cynyddol. Byddai'r Corff Llywodraethu am gael eu cynnwys ar gam cynharach o unrhyw gynnig a fyddai'n effeithio ar nifer derbyn neu ddalgylch presennol Ysgol Gyfun Gymraeg Plasmawr.*

190. *Dywedodd Pennaeth Ysgol Gynradd Springwood ei fod yn cefnogi'r cynnig.*

<u>Arfarniad o'r safbwyntiau a fynegwyd</u>

191. Mae'r Cyngor yn cydnabod y farn a fynegwyd.

**Ymateb Aelodau Lleol**

192. Roedd ymateb ar y cyd gan Gynghorwyr Pen-y-lan (y Cynghorydd Joe Boyle, y Cynghorydd Bill Kelloway a'r Cynghorydd Tricia Burfoot) yn cynnwys y pwyntiau canlynol (mae copi o'r ymateb llawn yn Atodiad 5):

193. *Rydyn ni'n ysgrifennu fel aelodau etholedig Pen-y-lan i gefnogi cynnig y cyngor am drefniadau derbyn uwchradd cydlynol. Gallent leihau rhywfaint o'r pwysau sydd ar lawer o breswylwyr ein ward yn eu hymdrechion i sicrhau lle i'w plant yn ysgol y dalgylch, Ysgol Uwchradd Caerdydd.*

194. *Rydyn ni'n hyderus na fydd y cynigion yn cael effaith negyddol ar unrhyw grŵp penodol ac felly nad ydynt yn groes i unrhyw ofynion cydraddoldeb.*

195. *Mae llawer o blant ym Mhen-y-lan yn debygol o fethu allan ar le yn ysgol eu dalgylch ac mae angen datrysiad tymor hwy ar breswylwyr Pen-y-lan, yn arbennig wrth i fwy a mwy ddod drwy'r system.*

<u>Arfarniad o'r safbwyntiau a fynegwyd</u>

196. Mae'r Cyngor yn cydnabod y farn a fynegwyd.

197. Gweler paragraffau 74-76 am y pwyntiau a godwyd ynghylch y galw am leoedd yn Ysgol Uwchradd Caerdydd.

**Ymatebion eraill a gafwyd**

198. Pryderon ynghylch newid y broses dderbyn bresennol i dreialu trefniadau derbyniadau uwchradd cydlynol

199. *Mae'r system bresennol yn decach ac yn rhoi mwy o ddewis i rieni.*

200. *Dydw i ddim yn hyderus y bydd y system newydd yn welliant ac rwyf heb weld unrhyw wybodaeth am sut y gellid defnyddio pwysoliadau os nodir ffafriaeth am ysgolion gwirfoddol a gynorthwyir.*

201. *Mae'n achosi dryswch ac ni fydd yn cael unrhyw effaith ar ysgolion gwirfoddol a gynorthwyir. Dydw i ddim yn gallu gweld y fantais. Y broblem yw nad oes digon o ysgolion cyfrwng Saesneg gan fod y rhan fwyaf o'r cyllid yn mynd i ariannu ysgolion cyfrwng Cymraeg.*

202. *Mae'n bosib na fydd yr ysgol yn derbyn ein cais gan mai hi yw'r unig ddewis.*

Arfarniad o'r safbwyntiau a fynegwyd

203. Fel y nodir yn y Ddogfen Ymgynghori (tudalennau 6 a 7), mae'r Cyngor o'r farn fod y system bresennol yn aneffeithlon gan fod rhai rhieni sy'n gwneud cais am le i'w plentyn mewn addysg uwchradd wedi cael cynnig lle mewn sawl ysgol, tra bod rhieni eraill wedi methu â chael lle i'w plentyn yn unrhyw un o'u dewisiadau.

204. Yn seiliedig ar y dyraniad cychwynnol ar gyfer symud i Flwyddyn 7 ym mis Medi 2016, roedd cyfanswm o 192 o blant yn dal cyfanswm o 397 o leoedd. Roedd hyn yn golygu bod 192 o deuluoedd yn dal 205 o leoedd nad oeddent yn bwriadu eu derbyn, ac yn eu hatal rhag cael eu cynnig i eraill. Ar yr un pryd, ni chafodd 360 o blant gynnig lle mewn unrhyw ysgol.

205. Felly, gwnaeth llawer o deuluoedd golli allan ar eu hysgol/ion dewis neu fethu â chael cynnig lle mewn unrhyw ysgol o gwbl.

206. Dewisodd rhai rhieni 'ddal' cynigion ar gyfer mwy nag un ysgol, gan atal plant eraill rhag cael cynnig y lleoedd hyn, sy'n achosi straen diangen ar deuluoedd ond hefyd anawsterau i ysgolion cynradd ac uwchradd sy'n cynllunio ar gyfer symudiadau'r plant.

207. Byddai trefniadau derbyn cydlynol ar gyfer ysgolion uwchradd yn rhoi un dewis i fwy o rieni, a fyddai'n system decach, fwy cydradd o ddyrannu lleoedd ysgol yng Nghaerdydd. Byddai plant yn cael profiad pontio gwell a dechrau mwy effeithiol i'w haddysg uwchradd.

208. Fel y soniwyd yn y Ddogfen Ymgynghori (tudalen 7), nod y Cyngor yw cynnig proses dderbyn gydlynol gyda'r sectorau gwirfoddol a gynorthwyir a sefydledig sy'n rhoi darlun clir i rieni o'r dewisiadau o

leoedd ysgol sydd ar gael iddynt a'r tebygrwydd o sicrhau lle yn y dewis cyntaf. Byddai'r cynnig hwn yn cyfrannu at y nod hwn.

209. Disgwylir gweld y manteision canlynol o ganlyniad i'r cynnig hwn:
- Byddai mwy o ddisgyblion yn cael lle mewn ysgol ddewis uwch;
- Byddai mwy o ddisgyblion yn dawel eu meddwl o gael lle mewn ysgol uwchradd;
- Byddai mwy o rieni'n gallu cynllunio trefniadau gwaith a gofal plant yn gynharach;
- Ni fyddai cynifer o rieni'n poeni am le eu plentyn ar restrau aros ysgolion amrywiol;
- Ni fyddai'n rhaid i gynifer o deuluoedd gyflwyno ceisiadau derbyn pellach na defnyddio'r broses Apêl Annibynnol;
- Byddai plant sy'n mynd i'r Ysgol Uwchradd am y tro cyntaf yn cael profiad gwell gan fod staff yn gallu manteisio ar effeithlonrwydd y broses dderbyn i gynnig dechrau mwy effeithiol i blant i'w galluogi i gyrraedd eu llawn botensial ar gam cynharach.

210. Fel y soniwyd yn y Ddogfen Ymgynghori (tudalen 9), byddai Ysgolion Gwirfoddol a Gynorthwyir a'r Ysgol Sefydledig yn pennu pa geisiadau sy'n bodloni eu meini prawf derbyn drwy sgorio pob ymgeisydd yn unol â'u meini prawf derbyn, gan gadarnhau eu penderfyniadau ar ôl blaenoriaethu'r rhestr o ymgeiswyr a nodi'r sail dros dderbyn pob disgybl.

211. Cydnabyddir, dan y system bresennol, fod gan rieni'r opsiwn o wneud cais am nifer o leoedd ysgol; ar gyfer mwy na thair ysgol gymunedol. I gydnabod hyn, yn amodol ar weithrediad, bydd rhieni'n cael y cyfle i wneud cais am hyd at bum lle ac yn cael eu hannog i wneud hynny.

212. Cydnabyddir y gall y derminoleg a ddefnyddir achosi dryswch ac mewn ymateb i hyn trefnwyd nifer o sesiynau galw heibio lle roedd swyddogion ar gael i esbonio'r cynnig ac ateb unrhyw gwestiynau. At hynny, rhoddwyd manylion cyswllt yn ôl yr angen i bobl yr oedd angen eglurhad pellach arnynt.

213. Eir i'r afael â'r awgrym nad oes digon o ysgolion cyfrwng Saesneg a bod y rhan fwyaf o'r cyllid yn mynd i ysgolion cyfrwng Cymraeg ym mharagraff 74-76.

214. Mae holl ysgolion a gynhelir yr Awdurdod Lleol (gan gynnwys ysgolion cyfrwng Cymraeg a chyfrwng Saesneg) yn cael eu hariannu dan ofynion Deddf Safonau a Fframwaith Ysgolion 1998. Dan y ddeddfwriaeth hon, mae Cyllideb yr Ysgol Unigol (swm sy'n cael ei ddirprwyo'n uniongyrchol i ysgolion) yn cael ei phennu drwy fformiwla cyllido y mae o leiaf 70% ohono'n seiliedig ar nifer y disgyblion sydd wedi'u cofrestru yn yr ysgol ac sy'n cael ei asesu drwy'r Uned Pwysoli yn ôl Oedran Disgybl (AWPU). Asesir gweddill yr arian i gynnwys ffactorau fel:

- Maint y safle;
- Anghenion arbennig yn yr ysgol;
- Gwasanaethau cymorth sydd eu hangen (cyfreithiol, ariannol, personél, TGCh, cymorth llywodraethwyr ac ati);
- Gweithrediad parhaus cytundeb llwyth gwaith yr ysgol.

Effaith cynigion ar ddarpariaeth Gymraeg

215. *'Dydw i ddim yn cytuno â'ch asesiad o'r effaith bosibl ar addysg Gymraeg. Mae'n edrych yn debygol y bydd plentyn sydd am gael ei addysgu'n Gymraeg yn fwy tebygol o gael ei wrthod o un o ddim ond tair ysgol uwchradd Gymraeg yn y ddinas.'*

216. *'Dydw i ddim yn hyderus y gallwch ddarparu digon o leoedd uwchradd ar gyfer addysg Gymraeg. Mae angen i chi adeiladu ac agor pedwaredd ysgol uwchradd Gymraeg ar frys. Yn fy marn i bydd eich newidiadau'n trin y Gymraeg yn wahanol i'r Saesneg.'*

Arfarniad o'r safbwyntiau a fynegwyd

217. Mae cynllunio a derbyn lleoedd mewn ysgolion yn ystyriaeth ar wahân i bennu trefniadau derbyn.

218. Mae'r Cyngor yn ymrwymedig i sicrhau y bydd unrhyw blentyn sydd am gael ei addysgu drwy gyfrwng y Gymraeg yn cael cynnig lle mewn ysgol Gymraeg.

219. Ar hyn o bryd, mae tua 15% o'r lleoedd yn y sector uwchradd cyfrwng Cymraeg yn wag. Gan fod y boblogaeth disgyblion yn tyfu, bydd lefel y lleoedd gwag yn lleihau yn y blynyddoedd i ddod.

220. Mae swyddogion yn monitro cyfraddau geni, niferoedd yn deillio o dai newydd a phatrymau derbyn mewn ysgolion cymunedol Cymraeg, ysgolion cymunedol Saesneg, Ysgol Uwchradd (Sefydledig) yr Eglwys Newydd ac Ysgolion Ffydd ar oedran cynradd ac uwchradd, gyda golwg ar ddod â chynlluniau priodol yn eu blaen i fodloni unrhyw gynnydd yn y galw. Caiff cynigion eu dwyn ymlaen mewn da bryd i sicrhau bod digon o leoedd i fodloni'r galw am leoedd cyfrwng Cymraeg a chyfrwng Saesneg ym mhob dalgylch.

Lleoedd Ysgol

221. *Os na fydd mwy o geisiadau na lleoedd yn unrhyw un o'r ysgolion uwchradd, ni ddylai system ymgeisio unol roi unrhyw un dan anfantais. Os bydd mwy o geisiadau na lleoedd, mae'r system hon yn creu a chynnal annhegwch i grwpiau penodol o bobl (h.y. y rheiny sydd wedi mynychu ysgol gynradd gymunedol Saesneg) drwy gyfyngu ar eu dewisiadau dalgylch i gyn lleied â sero.*

222. *Gallai plentyn beidio â chael cynnig lle yn unrhyw un o'i ysgolion dewis; nid yw hyn yn fwy na chynllwyn i gynyddu'r niferoedd yn ysgolion llai poblogaidd Caerdydd.*

223. *Pryderon ynghylch lleoedd mewn ysgolion poblogaidd, dewisiadau Ysgol Uwchradd yn y dyfodol a diffyg lleoedd yng Ngogledd Caerdydd.*

224. *Pryderon ynghylch plant sy'n mynychu ysgolion nad ydynt yn byw yn y dalgylch lleol, a rhai plant (rhai lleol a rhai sydd wedi'u hintegreiddio yn y gymuned) nad ydynt wedi gallu cael lleoedd yn eu hysgolion dewis.*

225. *Mae rhai ysgolion yn cael mwy o geisiadau na nifer y lleoedd sydd ar gael ac mae rhai plant dan anfantais gan fod agosrwydd yr ysgol yn cael ei ddefnyddio wrth flaenoriaethu ceisiadau er eu bod wedi bod yn byw yn y dalgylch ers cryn amser. Er mwyn sicrhau system decach dylai'r Cyngor ystyried cynnwys hyd preswyliad mewn dalgylch pan fo mwy o geisiadau na lleoedd.*

226. *Mae plant sy'n siarad Cymraeg sy'n dod i mewn i'r ardal o'r tu allan i'r dalgylch yn rhoi plant sydd wedi byw yn y dalgylch a mynychu ysgol 'fwydo' dan anfantais gan nad ydynt yn gallu siarad Cymraeg ac yn methu mynd i ysgol Gymraeg.*

<u>Arfarniad o'r safbwyntiau a fynegwyd</u>

227. Mae'r Cyngor wedi ymrwymo i ateb gofynion rhieni am leoedd mewn addysg Gymraeg a Saesneg ledled y ddinas. Felly, rydym yn adolygu'r galw lleol a nifer y lleoedd sydd ar gael mewn ysgolion yn rheolaidd er mwyn sicrhau ein bod yn ateb y galw mor effeithiol â phosibl ac yn gwneud pob ymdrech i sicrhau bod llefydd ar gael o fewn pellter rhesymol o'r cartref fel y nodir yng Nghynllun Strategol Addysg Gymraeg y Cyngor.

228. Mae'r Awdurdod Lleol ar hyn o bryd yn edrych ar anghenion ar draws y ddinas o ran y lleoedd sydd ar gael ac yn ystyried a oes digon o le fel rhan o broses gynllunio Band B Rhaglen Ysgolion yr 21ain Ganrif, sy'n cynnwys ystyried darpariaeth gynradd Gymraeg a Saesneg.

229. Mae dalgylchoedd yn un o'r meini prawf pan fo mwy o geisiadau na lleoedd ym Mholisi Derbyn i Ysgolion y Cyngor. Mae'r polisi hwn yn bodloni gofynion Cod Derbyn i Ysgolion Llywodraeth Cymru.

230. Mae hawl gan rieni i nodi ffafriaeth ar gyfer unrhyw ysgol. Os bydd ysgol yn cael mwy o geisiadau na'r lleoedd sydd ar gael, caiff ceisiadau eu hasesu yn erbyn y meini prawf pan fo mwy o geisiadau na lleoedd. Tra bod plant sy'n byw yn nalgylch yr ysgol yn cael blaenoriaeth dros y rheiny nad ydynt yn byw yno, ni ellir atal lle i blant y tu allan i'r dalgylch os oes digon o leoedd ar gael.

231. Trafodir yr awgrym i gynnwys 'hyd preswyliad yn y dalgylch' fel un o'r meini prawf ym mharagraffau 24-34.

232. Trafodir y pryderon ynghylch plant nad ydynt yn siarad Cymraeg yn cael eu rhoi dan anfantais ym mharagraffau 105-109.

Dyrannu lleoedd

233. *Nid yw'n glir sut yn union y caiff lleoedd eu dyrannu ar ôl i'r dewisiadau cyntaf gael eu bodloni.*

Arfarniad o'r safbwyntiau a fynegwyd

234. Caiff dewisiadau ymgeiswyr eu trin yn gydradd. Er enghraifft, os bydd rhywun yn gwneud cais am le mewn ysgol Ffydd, Sefydledig a Chymunedol, yn gyntaf byddai'r Awdurdodau Derbyn, h.y. Cyrff Llywodraethu'r Ysgolion Ffydd a Sefydledig a'r Cyngor (yr Awdurdod Derbyn ar gyfer Ysgolion Cymunedol) yn graddio pob cais a geir erbyn y dyddiad cau yn unol â meini prawf derbyn yr ysgolion.

235. Yna, byddai'r Gronfa Ddata Derbyniadau Ganolog (ar ôl derbyn rhestr blaenoriaethau pob Awdurdod Derbyn) yn dyrannu un lle ysgol ar gyfer dewis cyntaf plentyn lle bo'r plentyn hwnnw yn gymwys i'w dderbyn. Ystyrir pob cais a geir erbyn y dyddiad cau ar yr un pryd.

236. Rhoddir gwybod am ganlyniad y cais ar Ddiwrnod Cynigion Uwchradd Llywodraeth Cymru, sef 1 Mawrth neu'r diwrnod gwaith nesaf.

237. Felly, mae'n hanfodol bod rhieni yn hollol fodlon â threfn eu dewisiadau wrth gyflwyno'r ffurflen gais gyffredin, oherwydd er bod pob cais yn cael ei drin yn gydradd, bydd trefn yr ysgolion yn pennu, yn amodol ar gymhwysedd, i ba ysgol y caiff y plentyn ei ddyrannu.

Estyn y cyfnod ar gyfer derbyn lle mewn ysgol

238. *Dylai'r cyfnod o amser ar gyfer derbyn lleoedd ysgol gael ei ymestyn i roi mwy o amser i'r rhieni ymateb i'r cynnig.*

Arfarniad o'r safbwyntiau a fynegwyd

.

239. Gwnaed sawl cais yn ystod y cyfnod ymgynghori i ymestyn y cyfnod derbyn o 2 wythnos er mwyn rhoi mwy o amser i rieni ymateb i gynigion. Nodwyd y cais hwn. Yn amodol ar weithredu, caiff y cyfnod a ganiateir ar gyfer derbyn/gwrthod ei ymestyn i 3 wythnos.

Crynodeb

240. Mae pedwar o'r chwe Awdurdod Derbyn (Ysgol Uwchradd yr Eglwys yng Nghymru Teilo Sant, Ysgol Uwchradd Gatholig Illtyd Sant, Ysgol Uwchradd Gatholig Corpus Christi ac Ysgol Uwchradd yr Eglwys

Newydd) wedi datgan eu bod yn fodlon cymryd rhan yng ngweithrediad arfaethedig y trefniadau derbyn cydlynol ar gyfer 2018-2020. Mae'r ddau Awdurdod Derbyn arall (Ysgol Uwchradd yr Eglwys yng Nghymru Esgob Llandaf ac Ysgol Uwchradd Mair Ddihalog) wedi nodi eu bod yn bwriadu adolygu eu sefyllfa wrth i'r peilot symud yn ei flaen.

241. Argymhellir gweithredu'r peilot, er nad yw pob ysgol gymwys yn cymryd rhan, gan fod y manteision a amlinellir ym mharagraff 209 yn debygol o gael eu gwireddu.

242. Ni ddisgwylir gweld unrhyw effeithiau negyddol ar yr ysgolion hynny nad ydynt yn cymryd rhan na disgyblion sydd am fynychu'r ysgolion hynny oherwydd ni fydd y broses ar gyfer gwneud cais am le yn yr ysgolion hyn yn newid a bydd gwybodaeth am dderbyn i'r ysgolion hyn yn parhau i gael ei chynnwys yn Llawlyfr Derbyn i Ysgolion y Cyngor ac ar gael ar wefan y Cyngor.

**Ymgynghori ag Aelodau Lleol**

243. Ymgynghorwyd â'r holl Aelodau fel rhan o'r broses ymgynghori.

244. Yn ogystal cafodd yr adroddiad a'r materion gynhwysir ynddo eu hystyried gan Bwyllgor Craffu Plant a Phobl Ifanc. Roedd y Pwyllgor yn fodlon i'r adroddiad fynd yn ei flaen i'w ystyried gan y Cabinet.

245. Gellir gweld cyngor y Pwyllgor sy'n codi o adolygiad yr adroddiad, mewn llythyr gan Gadeirydd y Pwyllgor I'r aelod Cabinet dos Addysg yn Atodiad 7.

**Rheswm dros yr Argymhellion**

246. Mae'n ofynnol i'r Cyngor adolygu ei drefniadau derbyn i ysgolion bob blwyddyn a chytuno ar y trefniadau yn dilyn ymgynghoriad priodol.

**<u>Goblygiadau Ariannol</u>**

247. Gallai unrhyw newidiadau o ganlyniad i drefniadau derbyn newydd o bosibl ddod â goblygiadau ariannol. Byddai'n rhaid ystyried y rhain fel rhan o unrhyw newidiadau staffio neu ailstrwythuro o fewn yr adran derbyniadau a byddai gofyn am fewnbwn ar y cam hwnnw.

**<u>Goblygiadau Cyfreithiol (gan gynnwys Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb lle bo'n briodol)</u>**

248. Mae cyfrifoldeb statudol ar y Cyngor dan Ddeddf Addysg 1996 i hyrwyddo safonau addysg uchel ar gyfer ysgolion cynradd ac uwchradd yn ei awdurdod lleol. Mae Adran 89 Deddf Safonau a Fframwaith Ysgolion 1998 fel y'i diwygiwyd gan Ddeddf Addysg 2002

yn nodi bod yn rhaid i Awdurdodau Derbyn gynnal ymgynghoriad cyn penderfynu ar y trefniadau derbyn y byddant yn eu defnyddio.

249. Mae Rheoliadau Addysg (Penderfynu ar Drefniadau Derbyn) (Cymru) 2006 yn nodi'r weithdrefn y dylai Awdurdodau Derbyn ei dilyn wrth benderfynu ar eu trefniadau derbyn, gan gynnwys y broses ymgynghori a hysbysu ac amserlenni. Yn benodol, rhaid i'r Awdurdod Derbyn bennu trefniadau yn y flwyddyn ysgol sy'n dechrau ddwy flynedd cyn y flwyddyn ysgol y mae'r trefniadau ar ei chyfer, cymryd yr holl gamau angenrheidiol i sicrhau y bydd wedi cwblhau'r ymgynghoriad sy'n ofynnol dan adran 89(2) cyn 1 Mawrth a phenderfynu ar y trefniadau derbyn erbyn 15 Ebrill. Yna, rhaid cyhoeddi'r trefniadau o fewn 14 diwrnod o'r penderfyniad a rhoi gwybod i'r cyrff priodol.

250. Mae Llywodraeth Cymru wedi cyhoeddi cylchlythyr cyfarwyddyd, 'Mesur Capasiti Ysgolion yng Nghymru', sy'n nodi'r dull y dylai Awdurdodau Lleol ei ddilyn wrth benderfynu ar eu trefniadau derbyn. Rhaid hefyd ystyried y canllawiau yng Nghod Derbyn i Ysgolion Llywodraeth Cymru. Mae'r adroddiad hwn yn adlewyrchu'r gofynion hyn.

251. Rhaid i'r Cyngor hefyd fodloni ei ddyletswyddau a'i rwymedigaethau sector cyhoeddus dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010 (gan gynnwys dyletswyddau penodol sector cyhoeddus Cymru). Yn unol â'r dyletswyddau cyfreithiol hyn, wrth wneud penderfyniadau rhaid i Gynghorau roi sylw dyledus i'r angen i (1) gwaredu gwahaniaethu anghyfreithlon, (2) datblygu cyfle cyfartal a (3) meithrin perthnasau da ar sail y nodweddion a ddiogelir. Ni ddylai'r Cyngor wahaniaethu yn uniongyrchol neu'n anuniongyrchol yn erbyn unrhyw ddisgybl yn ei drefniadau derbyn. Golyga hyn na ddylid trin unrhyw ddisgybl neu grŵp o ddisgyblion yn llai ffafriol yn seiliedig ar nodwedd a ddiogelir. Y nodweddion a ddiogelir yw:

- Oedran
- Ailbennu rhywedd
- Rhyw
- Hil – gan gynnwys gwreiddiau ethnig neu genedlaethol, lliw neu genedligrwydd
- Anabledd
- Beichiogrwydd a mamolaeth
- Priodas a phartneriaeth sifil
- Cyfeiriadedd rhywiol
- Crefydd neu gred – gan gynnwys diffyg cred

252. Mae'r Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb (gweler Atodiad 6) yn ystyried yn benodol sut gallai'r cynigion effeithio ar ddisgyblion sydd â nodweddion a ddiogelir. Diben yr Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb yw sicrhau bod y Cyngor wedi deall effeithiau posibl y cynnig o ran cydraddoldeb fel y gall sicrhau ei fod yn gwneud penderfyniadau

cymesur a rhesymegol gan ystyried ei ddyletswydd cydraddoldeb sector cyhoeddus.

253. Yn unol â Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011 a Safonau’r Gymraeg, rhaid i’r Cyngor hefyd ystyried effaith unrhyw benderfyniad y mae'n ei wneud ar yr iaith Gymraeg ac, yn unol â Deddf Llesiant Cenedlaethau’r Dyfodol (Cymru) 2015, rhaid i’r Cyngor ystyried effaith ei benderfyniadau ar genedlaethau'r dyfodol. Mae’r adroddiad hwn yn adlewyrchu'r gofynion hynny.

**Goblygiadau Adnoddau Dynol**

254. O ganlyniad i’r trefniadau derfyn peilot, bydd angen ystyried effaith llwyth gwaith ysgolion ar swyddi derbyniadau ysgolion. Mae hyn yn berthnasol i staff derbyniadau yng Nghyfarwyddiaeth Addysg y Cyngor yn ogystal ag unrhyw swyddogion mewn ysgolion sydd â rôl o ran derbyn i ysgolion. Os bydd angen newid rolau a/neu strwythurau tîm, bydd angen delio â hyn yn unol â threfniadau ailstrwythuro cytunedig y Cyngor a graddau’r rolau a bennwyd yn unol â Statws Sengl.

**Asesiad o’r Effaith ar Gydraddoldeb**

255. Mae Asesiad o’r Effaith ar Gydraddoldeb wedi’i gynnal ar y cynnig hwn. Daeth yr asesiad i'r casgliad na fyddai'r cynnig hwn yn cael effaith negyddol ar grŵp penodol mewn cymdeithas (mae manylion yr Asesiad o’r Effaith ar Gydraddoldeb yn Atodiad 6).

**Asesiad Cynaliadwyedd**

256. Mae Asesiad Amgylcheddol Strategol (AAS) o’r cynnig wedi’i gynnal yn unol â Deddfwriaeth Ewropeaidd. Mae’r asesiad yn cadarnhau bod y cynnig yn gydnaws â’r amcan amgylcheddol a nodir yn Ysgolion yr 21ain Ganrif Caerdydd: Fframwaith Strategol ar gyfer Gwella Adeiladau Ysgolion. (Mae manylion yr Asesiad Cynaliadwyedd yn Atodiad 6).

**Trafnidiaeth**

257. Dan y cynigion hyn nid oes cynlluniau i newid polisi’r Cyngor ar gludo plant i ac o ysgolion. Gellir gweld polisi trafnidiaeth y Cyngor ar gyfer plant ysgol ar wefan y Cyngor (www.caerdydd.gov.uk).

**Effaith ar y Gymuned**

258. Mae angen system decach, fwy cydradd o ddyrannu lleoedd ysgol yng Nghaerdydd heb gael effaith negyddol ar y gymuned. Barn y Cyngor yw nad yw’r cynnig hwn yn debygol o gael effaith negyddol ar unrhyw gymuned yng Nghaerdydd. Byddai swyddogion yn gweithio gydag unrhyw grwpiau cymunedol er mwyn sicrhau bod y cynnig yn osgoi effeithiau negyddol lle bo hynny’n bosibl. Gallai’r cynnig effeithio ar

ysgolion sy'n cynnig amrywiaeth o weithgareddau ar ôl ysgol ac y gallai fod ganddynt sefydliadau cymunedol sy'n cynnig gwasanaethau o gyfleusterau'r ysgol. Ni ddisgwylir unrhyw effaith negyddol ar y gweithgareddau hyn.

**ARGYMHELLION**

Gofynnir i'r Cabinet wneud y canlynol:

1. penderfynu ar Drefniadau Derbyn i Ysgolion drafft y Cyngor 2018/19 (atodedig) a chytuno ar Bolisi Derbyn 2018/19.

2. awdurdodi swyddogion i ystyried trefniadau derbyn i ysgolion y Cyngor ymhellach, gan gynnwys ymchwil ehangach ar ddewisiadau amgen ac effaith pob un ohonynt cyn ymgynghori ar Bolisi Derbyn i Ysgolion y Cyngor ar gyfer 2019/20.

3. cytuno ar weithrediad y Trefniadau Derbyn Ysgolion Uwchradd Cydlynol ar gyfer y grŵp oedran Blwyddyn 7 sy'n dechrau ym mis Medi 2018, mis Medi 2019 a mis Medi 2020.

**NICK BATCHELAR**
Cyfarwyddwr
10 Mawrth 2017

*Atodir yr Atodiadau canlynol:*

Atodiad 1 – Polisi Derbyn i Ysgolion Drafft
Atodiad 2 – Dogfen ymgynghori Trefniadau Derbyn Cydlynol
Atodiad 3 – Ymatebion Ffurfiol – Polisi Derbyn
Atodiad 4 – Llythyr i rieni
Atodiad 5 – Ymatebion Ffurfiol – Trefniadau Derbyn Cydlynol
Atodiad 6 - Adnodd Sgrinio Statudol
Atodiad 7 – Llythyr Pwyllgor Craffu Plant a Phobl Ifanc

*Ystyriwyd y dogfennau cefndirol canlynol*